


Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# “Roeddwn i’n arfer bod yn rhywun”

## Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

Ebrill 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Llun y clawr:**
Asma*, 3, ffoadur o Syria, yn aros gyda'i theulu mewn canolfan gofrestru ar gyfer ymfudwyr a ffoaduriaid yn Preševo, yn ne Serbia, ar 5 Hydref 2015. Credyd: Sam Tarling / Oxfam
*enw'r plentyn wedi'i newid i amddiffyn ei hunaniaeth.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymuneda**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCymunedau@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCLILCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

# “Roeddwn i’n arfer bod yn rhywun”

## Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

Ebrill 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**John Griffiths AC (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Bethan Jenkins AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd ........ 5
Argymhellion ........ 8
01. Y cyd-destun ar gyfer yr ymchwiliad hwn ........ 12
02. Dull Cymru ........ 16
03. Integreiddio ........ 28
04. Bywyd yn ystod y broses loches ........ 38
05. Bywyd ar ôl y broses lloches ........ 45
06. Plant ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches (UASC) ........ 50
07. Cenedl Noddfa? ........ 56
Atodiad A – Astudiaethau achos ........ 59
Atodiad B – Ymatebion i'r ymgynghoriad ........ 63
Atodiad C – Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar ........ 65

# Rhagair y Cadeirydd

Caiff gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei lywio gan ein deialog parhaus â'n rhanddeiliaid. Nid yw'r adroddiad hwn ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, yn dilyn ein hymchwiliad polisi mawr cyntaf, yn eithriad. Dyma oedd blaenoriaeth bennaf y rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad yn ystod haf 2016 ar ein blaenraglen waith.

Cyd-destun ein hymchwiliad yw trasiedi rhyfel, ansefydlogrwydd a dadleoli. Mae'r byd yn profi'r argyfwng ffoaduriaid gwaethaf ers yr Ail Ryfel Byd. Yn 2015, roedd un o bob 113 o bobl y byd naill ai'n ffoadur, wedi'i ddadleoli yn ei wlad ei hun neu'n ceisio lloches. Yn 2016, wrth i'r gwrthdaro ddwysáu yn Syria, ac wrth i ansicrwydd ledaenu drwy'r gwledydd yn y rhan honno o'r byd, roedd mwy o bobl wedi'u dadleoli yn y byd nag yn ystod unrhyw adeg arall yn ein hanes. Mae miliynau wedi marw, mae teuluoedd wedi cael eu gwahanu gan wrthdaro ac mae plant wedi colli eu rhieni.

Yn Syria, Irac a gwledydd eraill, mae pobl yn ffoi'n daer rhag rhyfel ac erledigaeth. Mae'r lluniau a'r straeon cyson am bobl yn ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth yn Syria, Irac a gwledydd eraill yn peri gofid mawr inni. Mae llawer ohonyn nhw'n mentro ar daith beryglus i groesi Môr y Canoldir mewn cychod bach, gorlawn, ac mae niferoedd dirifedi o bobl, llawer ohonyn nhw'n blant, yn marw cyn cyrraedd y lan. Fel mae'r Pwyllgor wedi clywed, mae'r rhai sy'n goroesi i gyrraedd y DU, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain, yn debygol o fod wedi profi digwyddiadau eithriadol o drawmatig sy'n gadael creithiau seicolegol parhaol. Ac yn ystod y cyfnod bregus eithriadol hwn yn eu bywydau, maent yn wynebu cyfres o heriau mawr newydd. Fel y clywsom, ymadrodd a ddefnyddir yn aml gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yw:

> "Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun."

Cefais fy nghyffwrdd gan y straeon a glywsom yn ystod yr ymchwiliad hwn. Er enghraifft, ysgrifennodd dyn ifanc o Albania sy'n byw yn Llanelli:

> "When they emerge from the Eurotunnel, many refugees make the common mistake of thinking that all their problems are solved. But this is not the case. After having arrived in England, they are met with a whole new host of problems. Racism, the legal battle for citizenship, the language barrier - the list goes on and on."

Ond dywedodd hefyd:

> "The best thing that has ever happened in my life was moving to the UK. The help that I've received from people has been unbelievable. What this country has done for me, I never thought it would happen."

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw polisi lloches, felly mae y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae profiad ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, ac y graddau y gallant ymgartrefu a chwarae rhan lawn yn ein cymunedau, yn dibynnu'n helaeth ar hygyrchedd ac ansawdd y gwasanaethau datganoledig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Roeddem am:

- weld a oedd dull Llywodraeth Cymru, a ysgogir gan y Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches a'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol, yn gweithio;
- asesu pa mor effeithiol oedd cyfranogiad Cymru yn Rhaglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed Llywodraeth y DU; ac
- edrych ar y cymorth sydd ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Bu'r Pwyllgor yn ymweld â Chaerdydd ac Abertawe yn ogystal â Glasgow a Chaeredin yn ystod yr ymchwiliad hwn. Roeddem wedi ein calonogi o weld cymaint o ymrwymiad ac angerdd gan bobl a oedd yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ein dinasoedd. Gwnaeth y dulliau strategol yn ogystal â'r dulliau cymunedol a welsom yn yr Alban greu argraff arnom. Rwy'n ddiolchgar i bawb oedd yn ymwneud â'r ymweliadau a roddodd croeso mor gynnes i ni a siarad mor agored am yr heriau a wynebwyd. Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth, yn ysgrifenedig ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Gwelsom enghreifftiau o arfer da ledled Cymru, ac mae'n amlwg, mewn nifer o ardaloedd ac mewn nifer o ffyrdd mae'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio'n effeithiol i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i addasu i fywyd yn ein cymunedau ac i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy mewn nifer o feysydd i helpu partneriaid cyflawni, gan gynnwys drwy wneud sylwadau i Lywodraeth y DU, drwy adnewyddu'r cyfeiriad strategol a thrwy gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith cyflawni.

Rwy'n falch iawn bod gwaith y Pwyllgor eisoes wedi cael effaith, hyd yn oed cyn i ni gyhoeddi'r adroddiad terfynol hwn. Mewn ymateb uniongyrchol i'n hymchwiliad a thystiolaeth gan randdeiliaid:

- mae rôl Bwrdd Gweithrediadau Llywodraeth Cymru wedi ehangu y tu hwnt i Raglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed i gynnwys pob math o ffoaduriaid a cheiswyr lloches, i helpu i oresgyn y system loches ddwy haen sydd wedi dod i'r amlwg yn ôl rhanddeiliaid; ac
- mae ymgysylltiad cadarnhaol rhwng darparwr y llety lloches yng Nghymru a sefydliadau sy'n helpu ceiswyr lloches i ddatrys pryderon difrifol ynghylch ansawdd tai.

Mae'r rhain yn gamau pwysig, ond mae angen mynd ymhellach i ateb yr heriau cymhleth ac eang a wynebwn. Rydym wedi gwneud 18 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys:

- diweddaru a gwella'r dull strategol, drwy adolygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, gan sicrhau bod y Bwrdd Gweithrediadau yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn agored, a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Mewnfudo y DU;
- hwyluso gwaith integreiddio, drwy ddiweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol, ehangu rôl cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol, ymestyn trafnidiaeth rhatach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a gwella darpariaeth addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill;
- cefnogi ceiswyr lloches yn ystod y broses loches, drwy fonitro a datrys cwynion am lety lloches yn well, adolygu'r contract llety lloches cyn iddo gael ei adnewyddu nesaf, sicrhau bod landlordiaid ceiswyr lloches wedi'u cofrestru a'u harchwilio, a gwella'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael;

- cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches aflwyddiannus ar ôl y broses loches, drwy helpu ffoaduriaid i ganfod llety, a gwell mynediad i addysg a chyflogaeth a chamau i atal amddifadrwydd;
- diwallu anghenion penodol plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, drwy wasanaeth Gwarcheidiaeth, gan sicrhau bod capasiti a gallu ledled Cymru i gynnal asesiadau oed a phennu safonau gofynnol ar gyfer cymorth iechyd meddwl; a
- sicrhau mai Cymru yw 'Cenedl Noddfa' cynta'r byd.

Wrth wneud ein hargymhelliad terfynol, gwnaethom ystyried a chymeradwyo Saith Cam i Noddfa, a luniwyd gan Gynghrair Ffoaduriaid Cymru a chafodd gefnogaeth eang ymysg y rhanddeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector, yn ogystal â chymunedau ledled Cymru, gymryd y Saith Cam gyda'n gilydd er mwyn i ni fod yn Genedl Noddfa cynta'r byd.

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i amserlen benodol i gynnal ymgynghoriad cyflym ond cynhwysfawr ar Gynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ac adolygiad o'r Cynllun hwnnw. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys camau gweithredu mesuradwy, amserlenni ac adnoddau, a dylai gynnwys arfer gorau o'r Alban, gan gynnwys safonau ar gyfer darparu gwasanaethau a mentrau sydd wedi'u hanelu at wella canfyddiadau'r cyhoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnal cyfarfodydd chwarterol o Fwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru, a sicrhau bod gan y Bwrdd raglen waith glir ac yn cyhoeddi cofnodion o'r cyfarfodydd. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad ar unwaith o'r effaith y bydd Deddf Mewnfudo y DU 2016 yn ei chael ar Gymru. Dylai'r asesiad hwn gynnwys canfod pryd y bydd y prawf Hawl i Rentu yn cychwyn yng Nghymru, ac effaith y Ddeddf ar y cymorth sydd ar gael i geiswyr lloches aflwyddiannus a'u teuluoedd. Dylai Llywodraeth Cymru drafod ei hasesiad gyda'r Swyddfa Gartref a gofyn am arian ychwanegol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol a godir o'r ddeddfwriaeth. Yna dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol, landlordiaid a rhanddeiliaid eraill yn barod ar gyfer effaith y newid hwn yn y gyfraith, gan gynnwys cyhoeddi a lledaenu canllawiau cynhwysfawr. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i adolygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2016-17. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys strategaeth gyfathrebu sy'n pwysleisio manteision mewnfudo i gymdeithas Cymru ac yn chwalu mythau ac anwiredd mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Dylai hefyd gynnwys ymgyrch cyhoeddusrwydd ledled Cymru sy'n debyg i'r un sydd eisoes wedi'i gwneud yn yr Alban. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu rôl y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol y tu hwnt i SVPRP i bob ffoadur a cheisiwr lloches i helpu i gyflawni Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol diwygiedig. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn cynlluniau trafnidiaeth rhatach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys plant, i'w galluogi i gael gwell mynediad i addysg, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli. ........................................................................................................ Tudalen 37

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth bresennol o gyrsiau ESOL a'i asesiad o'r galw yn y dyfodol. Yna dylai weithio gydag awdurdodau lleol i gydgysylltu sgiliau a gallu mewn colegau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o gynllun gweithredu newydd i'w gyhoeddi cyn dechrau blwyddyn academaidd 2017/18. Dylai'r cynllun gweithredu:

- lenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth;
- sicrhau bod ffoaduriaid yn cael cynnig dosbarthiadau priodol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd yng Nghymru; a
- mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i ddosbarthiadau. ...... Tudalen 37

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r holl bartneriaid yn y broses llety lloches i adolygu gweithdrefnau cwynion, canllawiau arnynt a'r gwaith o'u lledaenu a monitro sut yr ymdrinnir ag achosion cwynion byw. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hysbysebu'n briodol fel bod ceiswyr lloches a'r rhai sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o'r trafodaethau a'r canlyniadau a'u bod yn cymryd rhan yn y broses. ................................................................................ Tudalen 43

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau brys gyda'r Swyddfa Gartref i ddiwygio'r system llety lloches cyn y broses adnewyddu contract yn 2019. Dylai'r diwygiadau gynnwys:

- partneriaid cyflawni yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu, dyfarnu a monitro'r contract;
- proses cwynion annibynnol i geiswyr lloches yng Nghymru, gan gynnwys cofrestr ganolog o gwynion, gwaith monitro systematig o'r cynnydd yn eu datrys a chyfleu amserlenni i denantiaid; a
- hyfforddiant cydraddoldeb i staff contractwyr. ................................ Tudalen 43

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod landlordiaid ceiswyr lloches yn rhan o gynllun cofrestru, naill ai fel estyniad neu gyflenwad i Rhentu Doeth Cymru. Dylai'r cynllun gynnwys rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau manwl o eiddo sy'n cartrefu ceiswyr lloches ac adrodd yn rheolaidd ar safonau llety. .................................................................................. Tudalen 43

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, drwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr newydd, fod darpariaeth ddigonol o gyngor cyfreithiol; gwybodaeth reolaidd i atgoffa am bwysigrwydd sgrinio iechyd yn ogystal â chymorth i bobl fynd i gael eu sgrinio; a chymorth iechyd meddwl, sy'n cael ei oruchwylio gan grŵp o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol 'Freedom From Torture'. Dylai fframwaith monitro a gwerthuso cadarn fod yn sail i'r Gwasanaeth. ................................................................. Tudalen 43

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys camau penodol i helpu ceiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus i osgoi amddifadedd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches diwygiedig, gan gynnwys creu cronfa grantiau bach i geiswyr lloches a phobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. .................................................................................................................. Tudalen 49

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu pobl sydd â statws ffoaduriaid i ddod o hyd i lety addas yng Nghymru. Dylai sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pryd y bydd ceiswyr lloches yn eu hardal yn cael statws ffoaduriaid, a gofyn i awdurdodau lleol ystyried p'un a yw'r ffoadur newydd yn agored i niwed ac felly eu bod mewn angen blaenoriaeth am gartref ynghyd â grwpiau eraill sy'n agored i niwed. .............................................. Tudalen 49

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ynghylch ymestyn y cyfnod symud ymlaen 28 diwrnod i 56 diwrnod. .................................................................................................................. Tudalen 49

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad at addysg a chyflogaeth drwy:

- hyrwyddo Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru mor eang ag y bo modd, i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau;
- ei gwneud yn ofynnol bod prifysgolion Cymru yn trin ffoaduriaid fel myfyrwyr cartref; a

- chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer interniaethau sector cyhoeddus a chyfleoedd gwirfoddoli wedi'u cynllunio ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. ........................................................................................................ Tudalen 49

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth gwarcheidiaeth i Gymru, gyda chymorth rhwydweithiau cyfoedion, fel rhan o'r broses o ailddatgan ymrwymiad Cymru i groesawu plant sy'n ceisio lloches sydd ar ben eu hunain. ........................................................................................................................ Tudalen 55**

**Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod person dynodedig ac wedi'i hyfforddi'n briodol fod ar gael ym mhob awdurdod lleol i gynnal asesiadau oedran plant sy'n ceisio lloches. ..................................................................... Tudalen 55**

**Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau safonau gofynnol cymorth iechyd meddwl i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches gyda thrawma, yn unol ag argymhellion Cymdeithas Seicolegol Prydain. .............................. Tudalen 55**

**Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y Saith Cam i wneud Cymru yn Genedl Noddfa. ........................................................................................ Tudalen 58**

# 01. Y cyd-destun ar gyfer yr ymchwiliad hwn

Lansiodd y Pwyllgor ei ymchwiliad ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod argyfwng ffoaduriaid mwyaf y byd ers yr Ail Ryfel Byd. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd dros 65 miliwn o bobl yn cael eu symud drwy rym o'u cartrefi o ganlyniad i wrthdaro neu erledigaeth.[1]

Erbyn diwedd 2016, cynigiodd Cymru noddfa i 397 o ffoaduriaid o Syria, ac roedd bron i 3,000 o geiswyr lloches o wledydd eraill (gan gynnwys rhai o Syria) yn aros am ganlyniad eu ceisiadau tra'n byw yng Nghymru – yn bennaf yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Nid yw'n hysbys beth yw nifer y ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru, ond amcangyfrifir ei fod rhwng 6,000 a 10,000.[2]

## Y llwybr lloches safonol

**1.** Os bydd pobl yn gwneud cais am loches drwy'r llwybr lloches arferol, cânt eu gwasgaru i lety lloches o amgylch y DU ac maent yn cael £36.95 yr wythnos mewn arian parod (a elwir yn 'gymorth adran 95' tra bod Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU yn ystyried eu cais. Caiff pobl sy'n ceisio lloches eu gwahardd rhag hawlio budd-daliadau lles prif ffrwd, ac ni chaniateir iddynt weithio fel arfer yn ystod y cyfnod hwn, a allai gymryd blynyddoedd.

**2.** Os caiff y person statws ffoadur, mae ganddynt 28 diwrnod i symud allan o lety loches, dod o hyd i gartref, cael rhif Yswiriant Gwladol a gwneud cais am fudd-daliadau neu ddod o hyd i gyflogaeth. Clywodd y Pwyllgor fod oedi gweinyddol yn ystod y cyfnod hwn yn aml yn arwain at amddifadrwydd ymysg pobl.[3]

**3.** Os yw person yn aflwyddiannus yn ceisio lloches, fel arfer ni chânt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus a ni fyddant yn gymwys i gael tai nau budd-daliadau lles a gallant gael eu heithrio rhag cymorth awdurdod lleol. Disgwylir iddynt adael y DU. Os oes rhwystr dros dro yn eu hatal rhag gadael y DU, gallant wneud cais i'r Swyddfa Gartref am gymorth caledi, sef pecyn safonol o lety a chynhaliaeth o £35.39 yr wythnos ar gerdyn 'Azure' (yn hytrach nag arian parod) i dalu am fwyd, dillad a phethau ymolchi (a elwir yn 'gymorth adran 4'). Mae meini prawf cymhwysedd llym ar gyfer y cymorth hwn. Rhaid i'r sawl sy'n hawlio'r arian allu dangos eu bod yn debygol o ddod yn amddifad mewn 14 diwrnod, a'u bod yn cymryd camau rhesymol i adael y DU.

## Rhaglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed

**4.** Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n sefydlu rhaglen i gynnig cymorth adsefydlu i rai o ffoaduriaid Syria sydd fwyaf agored i niwed – y Cynllun Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed, a gafodd ei alw yn ddiweddarach yn Rhaglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed (SVPRP). Bydd pobl sy'n cael eu derbyn o dan y rhaglen hon yn cael statws ffoadur heb orfod gwneud cais am loches drwy'r broses arferol. Caiff plant ar eu pen eu hunain eu trin o dan gynlluniau ar wahân (gweler pennod 6).

**5.** Yn dilyn ehangu'r rhaglen ym mis Medi 2015, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adsefydlu 20,000 o Syriaid yn y DU erbyn 2020.

---

[1] Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig i Ffoaduriaid, Figures at a glance.
[2] Amcangyfrif wedi'i gyhoeddi gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn 2013.
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, Cyfeirnod y Pwyllgor RAS 21.

# Llwybrau i loches yn y DU

## Rhaglen Adleoli Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed

**Adnabod**
Pobl yn Syria sy'n agored i niwed yn cael eu hadnabod gan y CU ac yn mynd trwy broses o wirio diogelwch.

**Statws**
Rhoi statws "Amddiffyniad Dyngarol" am gyfod o bum mlynedd ac yn cael eu paru gydag awdurdod lleol cyn cyrraedd y DU.

**Yn y DU, maent yn cael:**
- Gwasanaeth cwrdd a chroesawu yn y maes awyr, llety a chymorth i gael budd-daliadau lles, addysg, cyflogaeth a gwasanaethau integreiddio eraill.

## Y llwybr lloches arferol

**Cyrraedd y DU**

**Gwneud cais am loches**
Ni chaiff ymgeiswyr weithio fel arfer yn ystod y cyfnod hwn, a all gymryd blynyddoedd.

**Canlyniad**


**Rhoddir statws ffoadur**


**O fewn 28 diwrnod rhaid:**
- Darganfod llety
- Cael rhif Yswiriant Gwladol
- Dod o hyd i waith neu wneud cais am fudd-daliadau

**Gwrthodir lloches**

**Dim cymorth o gronfeydd cyhoeddus**
Disgwylir ei fod yn gadael y DU

**6.** Yn ôl yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael, cafodd 5,454 o bobl ddiogelwch dyngarol o dan Gynllun Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed:[4]




## Dull y Pwyllgor o weithredu

**7.** Nid yw polisi lloches wedi'i ddatganoli a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano, ond mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus sy'n dod o dan gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i edrych ar faint o gymorth sydd ar gael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru a pha mor dda yr oedd Cymru yn ymateb i'r sefyllfa o ddadleoli Syriaid ar raddfa fawr.

**8.** Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd trafod:

– cyflymder ac effeithiolrwydd dull Llywodraeth Cymru i adsefydlu ffoaduriaid drwy Raglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed (SVPRP) Llywodraeth y DU;

– effeithiolrwydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches;

– y cymorth a'r eiriolaeth sydd ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru; a

– rôl ac effeithiolrwydd Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru o ran sicrhau y caiff ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hintegreiddio yng nghymunedau Cymru.

**9.** Fel rhan o'r ymchwiliad, gwnaeth y Pwyllgor:

– gynnal **ymgynghoriad cyhoeddus** lle cafwyd 47 o ymatebion;

– ymweld â **Chanolfan Gymunedol Affricanaidd** yn Abertawe a **Chanolfan Oasis a Chanolfan y Drindod** yng Nghaerdydd;

– **ymweld â** Glasgow (fel gwesteion **Cyngor Ffoaduriaid yr Alban** a **Rhwydwaith Ffoaduriaid, Lloches a Mudo Glasgow**) a Chaeredin (fel gwesteion **Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** Senedd yr Alban);

– cynnal 10 **sesiwn dystiolaeth lafar** gydag ystod o randdeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (Ysgrifennydd y Cabinet); a

– **gohebu** gyda'r Swyddfa Gartref a Clearsprings Ready Homes Ltd.

---

[4] Y Swyddfa Gartref, **Ystadegau mewnfudo, mis Hydref i fis Rhagfyr 2016**, a gyhoeddwyd 23 Chwefror 2017.

**10.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd amser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

## Safbwyntiau Aelodau'r Pwyllgor

**11.** Roedd saith allan o wyth Aelod o'r Pwyllgor yn cytuno â'r adroddiad hwn gan ddweud ei fod yn cynrychioli eu safbwyntiau ar y dystiolaeth a drafodwyd ganddynt a'r argymhellion y gwnaethant benderfynu eu gwneud i Lywodraeth Cymru. Nid oedd un Aelod, Gareth Bennett AC, yn cytuno â'r adroddiad.

# 02. Dull Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am nifer o wasanaethau sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, fel iechyd, addysg a thai. Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Adran Gartref (y Swyddfa Gartref) Llywodraeth y DU yw lloches. Clywodd y Pwyllgor y gall hyn greu heriau sylweddol gan fod dwy lywodraeth sydd â dulliau gwahanol, sy'n gweithio gyda'r un awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill, yn gyfrifol am feysydd gwahanol ym mywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**12.** Gwnaeth gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor â rhanddeiliaid a gwaith ymchwil yn ystod yr ymchwiliad dynnu sylw at nifer o ddatblygiadau ar lefel y DU ac yn rhyngwladol a fydd yn effeithio ar wasanaethau Llywodraeth Cymru, Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu ardaloedd gwasgaru lloches newydd y tu hwnt i Gaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam a'r angen i ddarparu lle ar gyfer y nifer gynyddol o newydd-ddyfodiaid dirybudd;
- targedau a bennir gan Lywodraeth y DU, sydd â'r nod o adsefydlu 20,000 o ffoaduriaid o Syria erbyn 2020;
- Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (er y daeth trafodaethau i ben ar ôl i Lywodraeth y DU benderfynu cyfyngu ar nifer y plant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid a ganiateir i'r DU o dan yr hyn a elwir yn "welliant Dubs" i 350);
- Cynllun Adleoli Plant sy'n Agored i Niwed sydd â'r nod o adsefydlu 3,000 o blant a theuluoedd o'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica;
- adnewyddu contract llety lloches y Swyddfa Gartref yn 2019 (gweler pennod 4);
- **canfyddiadau** ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin ar lety loches ym mis Ionawr 2017;
- dirywiad posibl diogelwch a hawliau dynol mewn gwledydd amrywiol (Syria, Twrci, Eritrea ac ati), a allai arwain at nifer gynyddol o geisiadau am loches;
- penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac effaith goblygiadau presennol y DU o dan y System Lloches Ewropeaidd Gyffredin a Fframwaith Dulyn ar ddosbarthu ffoaduriaid ledled Ewrop.

## Arweinyddiaeth

**13.** Pwysleisiodd y Swyddfa Gartref pa mor bwysig yw cydweithio agos rhwng gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli i bob ceisiwr lloches a ffoadur,[5] a nododd enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus mewn perthynas â'r SVPRP.

**14.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at rôl Llywodraeth Cymru fel y "person canol":

> "The Home Office has direct responsibility, local authorities provide services, and we provide the overarching principle of health, education et cetera…our position on this is limited…Notwithstanding that, when there are issues in the

[5] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, **4 Ionawr 2017**.

system that are Welsh related, I have had contact with senior Ministers in Westminster, and they've been resolved. So, we do have leverage there."[6]

**15.** Dywedodd Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), wrth y Pwyllgor y dylai fod mwy o gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref cyn cyhoeddi cyngor a chanllawiau.[7] Gwnaeth Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr Tai Pawb, achos dros fwy o waith partneriaeth rhwng darparwyr gwasanaeth eiriolaeth ac awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Adran Gwaith a Phensiynau'r DU.[8]

**16.** Dywedodd UNISON fod pa mor gyflyn y caiff teuluoedd eu hadsefydlu yn dibynnu ar barodrwydd awdurdodau lleol. Roeddent yn honni mai dim ond nifer fechan o ffoaduriaid yr oedd rhai awdurdodau lleol wedi'u hadsefydlu gan ddweud bod angen gwneud mwy. Gwnaethant hefyd gyfeirio at y pwysigrwydd o roi dulliau cymorth lleol ar waith i roi'r cyfle gorau posibl i deuluoedd adsefydlu'n llwyddiannus a'u croesawu i'n cymunedau.[9]

**17.** Dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi:

> "…supported local authorities and partners in their response to the humanitarian crisis in Syria and demonstrated leadership, through the First Minister, in bringing key stakeholders together in September 2015 to discuss and help coordinate the response from Wales."[10]

**18.** Fodd bynnag, nododd City of Sanctuary fod rhai grwpiau City of Sanctuary, yng Nghymru wedi profi ymgysylltiad isel gan awdurdodau lleol.[11] Roedd rhai tystion yn teimlo bod rôl Llywodraeth Cymru ar lefel ymarferol yn llai amlwg. Dywedodd Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST), yn Abertawe, wrth y Pwyllgor:

> "… I'm not clear what role the Welsh Government have had in deciding which families come… it's direct between the local authority and the Home Office, which, to me, doesn't seem right."

**19.** Roedd Ms Cifuentes am i Lywodraeth Cymru geisio bod yn llawer cryfach ac yn bartner llawer mwy cyfartal ac i sicrhau bod gweithgareddau presennol wedi'u hariannu a'u cefnogi'n well ac yn gydgysylltiedig yn strategol.[12] Galwodd City of Sanctuary am i Lywodraeth Cymru gymryd dull mwy rhagweithiol ar y SVPRP drwy hyrwyddo arfer gorau.[13]

## Y Cynllun Cyflawni

**20.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (y Cynllun) ym mis Mawrth, a oedd yn disgrifio blaenoriaethau gan gynnwys tai, iechyd, addysg a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC).

---

[6] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 7.
[7] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 46.
[8] Tystiolaeth lafar, Alicja Zalesinska (Tai Pawb), 11 Ionawr 2017, paragraff 174.
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, UNISON, RAS 19.
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, RAS 32.
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[12] Tystiolaeth lafar, Rocio Cifuentes (EYST), 15 Rhagfyr 2016, paragraffau 187 i 250.
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.

**21.** Clywodd y Pwyllgor gan nifer o randdeiliaid nad oedd y Cynllun yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol. Roedd Oxfam Cymru yn siomedig gydag ansawdd y cynllun, ac roedd yn dadlau ei fod yn brin o amcanion pendant ac atebol, neu fel dywed y Groes Goch Brydeinig, camau "SMART"[14] ym meysydd cyfrifoldeb datganoledig yn ogystal un unrhyw ddarpariaeth i liniaru effaith deddfwriaeth neu bolisi Llywodraeth y DU.[15] Galwodd Dinas a Sir Abertawe y cynllun yn wan a dywedodd nad oedd unrhyw sylwedd/adnoddau y tu ôl i'r camau neu'r rhwymedigaeth gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyflawni.[16]

**22.** Dywedodd Rocio Cifuentes wrth y Pwyllgor fod y Cynllun yn canolbwyntio gormod ar anghenion cymorth uniongyrchol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Roedd yn dadlau y dylid hefyd roi sylw i'r cyd-destun y maent yn byw ynddo ac i herio camsyniadau ymysg y boblogaeth ehangach sy'n byw yng Nghymru. Roedd Ms Cifuentes yn meddwl mai'r rheswm dros gwmpas a photensial cyfyngedig y Cynllun yw nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd allan ddigon y tu hwnt i Gaerdydd. Galwodd am:

> "a much more holistic understanding of the issue of refugees, understanding that the main challenge that they face is actually how they are perceived, rather than direct issues regarding housing and schooling, which are issues that everybody shares."[17]

**23.** Roedd rhanddeiliaid hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth y Cynllun. Dywedodd CLlLC fod gan y Cynllun broffil neu effaith gyfyngedig ar draws awdurdodau lleol.[18] Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod ganddo broffil cyfyngedig o ran ei bresenoldeb y tu allan i'r meysydd gwasanaeth hynny ac asiantaethau sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r rhaglen sy'n golygu bod dibyniaeth ar y staff hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y maes hwn i wireddu'r cynllun.[19] Ni allai Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch ganfod unrhyw dystiolaeth o ymwybyddiaeth heb sôn am fod y cynllun cyflawni yn cael ei ymgorffori mewn strategaethau lleol (Cyngor Sir Casnewydd). Awgrymodd y Grŵp fod hyn oherwydd bod y cynllun yn amwys iawn ynghylch cyfrifoldebau ac amserlenni ac awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r cynllun cyflawni wedi'i gynnwys mewn cynlluniau a strategaethau eraill Llywodraeth y DU.[20]

**24.** Gwnaeth Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLlLC nodi beth yr oedd hi'n ystyried oedd camau nesaf y Cynllun:

> "…our view is that it [the delivery plan] could do with a revision and an updating in terms of the changed agenda that we do have, and the opportunity to really embed integration and address the issues that are being told to us by asylum seekers and refugees."[21]

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Groes Goch Brydeinig, RAS 15.
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru, RAS 10.
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dinas a Sir Abertawe, RAS 28.
[17] Tystiolaeth lafar, Rocio Cifuentes, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 159.
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLlLC, RAS 32.
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Torfaen, RAS 35.
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch, RAS 4.
[21] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLlLC), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 11.

**25.** Tynnodd UNISON sylw at y cyfyngiadau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn eu hwynebu, a dadleuodd y byddai'n afresymol disgwyl i wasanaethau amsugno mwy o alw heb gyllid ychwanegol i'w darparu.[22]

**26.** Dywedodd Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP), a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac a gynhelir gan CLILC, wrth y Pwyllgor fod angen i'r Cynllun fynd i'r afael â chymhlethdod llawer mwy, daearyddiaeth ehangach, rhaglenni adsefydlu gwahanol, a lefelau gwahanol o arbenigedd a seilwaith ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.[23] Esboniodd Awdurdodau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn hyn yn fanylach:

> "To date the settlement areas have been carefully chosen in order to maximise the chances of successful integration, i.e. access to schools, good access to Public Transport, prayer facilities, specialist food outlets, access to peer support networks and Health Facilities etc. however in future refugees will need to be settled in different areas where there is adequate capacity and support. One factor that has needed some input is the management of the geographical expectation i.e. especially when families have left a large city and are being re-settled in a different landscape. In future this will require further work up-front so that expectations are as realistic as possible and the Home Office has promised that clients will receive an up-front briefing in order that expectations are fair and reasonable."[24]

**27.** Cafodd y Pwyllgor nifer o argymhellion penodol ar gyfer sut i wella'r cynllun, gan gynnwys:

- fframwaith monitro cynhwysfawr ac ymrwymiad ar draws adrannau;[25]
- dangosyddion SMART i fonitro effaith ar fenywod a merched sy'n ffoaduriaid;[26]
- canlyniadau ar draws adrannau, fel iechyd, addysg a thai, sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfnod symud 28 diwrnod gyda ffocws ehangach ar les y teulu cyfan drwy greu llwybr integreiddio sy'n mabwysiadu ymateb ymyrraeth ac atal cynnar i aduno teuluoedd;[27]
- cyfathrebu effeithiol i reoli disgwyliadau ffoaduriaid,[28] gan gynnwys osgoi sefyllfaoedd lle roedd ffoaduriaid yn credu eu bod yn dod i Fanceinion neu Fryste ac nad oeddent yn ymwybodol eu bod yn dod i ganolbarth Cymru wledig;[29]
- cysondeb ar draws wasanaethau yng Nghymru;[30]
- o leiaf un cydgysylltydd ffoaduriaid fesul awdurdod lleol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru;[31]
- pecyn cymorth cynefino ledled Cymru i helpu gyda'r broses ymgartrefu, gan adeiladu ar lwyddiant y canllaw defnyddiol 'Croeso i Gymru' yn Saesneg ac Arabeg fel rhan o'r pecyn

---

22 Tystiolaeth ysgrifenedig, UNISON, RAS 19.
23 Tystiolaeth ysgrifenedig, WSMP, RAS 34.
24 Tystiolaeth ysgrifenedig, Awdurdodau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, RAS 29.
25 Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Ferched Cymru, RAS 30.
26 Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Ferched Cymru, RAS 30.
27 Tystiolaeth ysgrifenedig, y Groes Goch Brydeinig, RAS 15.
28 Tystiolaeth ysgrifenedig, UNISON, RAS 19.
29 Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Ceredigion, RAS 38.
30 Tystiolaeth ysgrifenedig, UNISON, RAS 19.
31 Tystiolaeth ysgrifenedig, UNISON, RAS 19.

'deall Cymru' a llyfryn defnyddiol i bobl ifanc ar yr un pwnc mewn fformat 'hawdd ei ddarllen';[32] a

– hyfforddiant gwell i weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus i wella dealltwriaeth o faterion ffoaduriaid a cheiswyr lloches.[33]

**28.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wedi ymrwymo i ailedrych ar y Cynllun yn 2017, gan ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad hwn. Dywedodd:

> "…over the last 12 months there's been a lot of very quick movement in the system. I believe our policies are rapidly going out of date…our policies have to be fit for purpose and that's why we've triggered a review of the strategy."[34]

## Tasglu Ffoaduriaid Syria a'r Bwrdd Gweithrediadau

**29.** Sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Ffoaduriaid Syria a Bwrdd Gweithrediadau i arwain dull Cymru gyfan a chydgysylltu gwaith pob sefydliad i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl. Cefnogir gwaith y Tasglu a'r Bwrdd Gweithrediadau gan y WSMP.

**30.** Cafwyd adborth cadarnhaol gan awdurdodau lleol ynghylch y trefniadau hyn. Dywedodd Cyngor Torfaen fod y Bwrdd Gweithrediadau wedi cynnal trosolwg strategol a dywedodd fod y WSMP yn allweddol o ran sicrhau y cymerir proses gydgysylltu gyson.[35] Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod CLlLC a'r WSMP wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth alluogi rhannu arfer da a gweithio drwy'r materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.[36]

**31.** Dywedodd Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIP AB) wrth y Pwyllgor unwaith y cafodd y Tasglu ei sefydlu, daeth y gwaith cydgysylltu yn well ac yn fwy syml. Nododd y byddai gwell cyfathrebu gan y Swyddfa Gartref wedi bod yn ddefnyddiol yn y camau cychwynnol. Amlygodd Dr Richardson yr anawsterau a achoswyd gan yr anallu i rannu pa awdurdodau lleol sydd wedi derbyn teuluoedd gyda Llywodraeth Cymru ac felly gyda gwasanaethau iechyd. Dywedodd, gyda chymorth swyddogion Llywodraeth Cymru, fod cydweithwyr ym maes iechyd a llywodraeth leol wedi sefydlu fframwaith iechyd gyda llwybr sy'n golygu y gellid ystyried diwallu anghenion iechyd teulu ym mhenderfyniad awdurdod lleol o ran p'un a i dderbyn y teulu.[37]

**32.** Roedd rhai o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn llai cadarnhaol. Dywedodd Siân Summers-Rees, Prif Weithredwr City of Sanctuary UK ac Iwerddon a Chadeirydd Asylum Justice, wrth y Pwyllgor, yn ôl profiadau grwpiau lleol ledled Cymru, roedd ymateb awdurdodau lleol i'r SVPRP wedi bod yn gymysg.[38] Nododd Oxfam Cymru nad oedd hi'n glir pa ddylanwad oedd gan y Tasglu na'r Bwrdd Gweithrediadau na ph'un a yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ychwanegu gwerth i waith CLlLC, awdurdodau lleol a chymdeithas sifil a galwodd am arweinyddiaeth fwy strategol gan Lywodraeth

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dinas a Sir Abertawe, RAS 28.
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Torfaen, RAS 35.
[34] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 2.
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Torfaen, RAS 35.
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Ceredigion, RAS 38.
[37] Tystiolaeth lafar, Dr Gill Richardson (BILI AB), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 311.
[38] Tystiolaeth lafar, Sian Summers-Rees (City of Sanctuary), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 117.

Cymru wrth ymateb i argyfyngau dyngarol, gan roi mwy o frys a datrys problemau i sicrhau y gall awdurdodau lleol, cymunedau a darparwyr gwasanaeth ymateb yn gyflym i heriau o'r fath.[39]

**33.** Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn teimlo y dylai'r Bwrdd Gweithrediadau gynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau trais yn erbyn menywod yng Nghymru.[40] Roedd pryderon hefyd nad oedd y Bwrdd Gweithrediadau wedi cyfarfod ers mis Mehefin 2016,[41] er dywedwyd wrth y Pwyllgor fod is-grwpiau wedi cyfarfod yn y cyfamser.

**34.** Roedd Naomi Alleyne o CLILC yn dadlau ei bod yn bwysig sicrhau'r canlynol:

> "these systems or these structures are sustainable moving forward, because this is a five-year programme, and we need to ensure that we can maintain that interest, the sustainability, the changes to policy or practice that are required as time goes on, that we learn more experience and that people settle more within different Communities."[42]

## "System ddwy haen"?

**35.** Amlygodd rhanddeiliaid fod Tasglu Ffoaduriaid Syria a'r Bwrdd Gweithrediadau wedi parhau ym mholisi Cymru â'r "system ddwy haen" o loches a ddywedwyd ei bod wedi'i chreu drwy sefydlu SVPRP. Clywodd y Pwyllgor fod y rhai sy'n cyrraedd drwy'r rhaglen hon yn cael cymorth pwrpasol a chynnig llwybr carlam o ran y cymorth gweinyddol,[43] yn hollol wahanol i'r cymorth y mae ffoaduriaid eraill yn eu cael drwy'r llwybr lloches arferol.[44] Cyfeiriodd 12 o randdeiliaid at y mater hwn gan gynnwys Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, Alltudion ar Waith a CLILC.

**36.** Dywedodd Hayley Richards, Swyddog Polisi ac Eiriolaeth Oxfam, wrth y Pwyllgor fod y Swyddfa Gartref yn gwbl ymwybodol bod system ddwy haen yn bodoli. Eglurodd, fel rhan o'r llwybr lloches ar wahân a gafodd ei greu i Syriaid gan y Swyddfa Gartref, fod proses garlam drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau i drefnu rhif yswiriant gwladol a'r gwaith papur a dywedodd ei bod yn deall bod hyn i gyd wedi digwydd mewn 48 awr o dan y broses llwybr carlam. Barn Ms Richards yw y dylai'r system llwybr carlam fod ar gael i bob ffoadur newydd ac nid dim ond ffoaduriaid o Syria.[45] Dywedodd Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr Tai Pawb, y byddai hi yn cefnogi'r galwad am ddull cyfartal rhwng cynllun Syriaid a'r cynllun ffoaduriaid cyffredinol, lle caiff y ceisiadau rhif yswiriant gwladol eu hwyluso a cheisiadau am fudd-daliadau eu hwyluso.[46]

**37.** Ymhellach, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru (gweler pennod 3) ond yn gweithio'n uniongyrchol gyda ffoaduriaid a adsefydlwyd drwy'r SVPRP, ac nid gyda ffoaduriaid sy'n newydd-ddyfodiaid dirybudd.[47]

---

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru, RAS 10.
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymorth i Ferched Cymru, RAS 30.
[41] Tystiolaeth lafar, Hayley Richards (Oxfam), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 247.
[42] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 40.
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[45] Tystiolaeth lafar, Hayley Richards (Oxfam), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 221.
[46] Tystiolaeth lafar, Alicja Zalesinska (Tai Pawb), 11 Ionawr 2017, paragraff 174.
[47] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 193.

**38.** Roedd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn annog y Pwyllgor i:

> "acknowledge and address this two-tier system by seeking commitments from Welsh Government to…demonstrate leadership & proactively promote positive messages & narratives about all refugees being welcome in Wales, as well as the benefits of migration to Wales."[48]

**39.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'n briodol ar gyfer pob mudwr a'r gwasanaeth ac eglurodd fod y Tasglu wedi'i sefydlu oherwydd ei fod yn fan lle roedd pwysau ac roeddem yn teimlo bod yn rhaid gweithredu ar hynny a chael rhywbeth penodol iawn i gefnogi'r broses honno. Fodd bynnag, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth honno, ac felly mae'n edrych ar egwyddor ehangach ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Sicrhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor os oedd yna system ddwy haen nad oedd yn fwriadol, a chytunodd i drafod y posibilrwydd o ehangu gwaith y Bwrdd Gweithrediadau yn y cyfarfod nesaf.[49]

**40.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach fod y Bwrdd Gweithrediadau wedi cyfarfod ar 27 Chwefror 2017 (y tro cyntaf ers 13 Mehefin 2016) ac wedi cytuno ar gylch gorchwyl diwygiedig gan gynnwys cylch gwaith estynedig a newid yr enw i Fwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru. Yn y cyfarfod, cytunodd y Bwrdd Gweithrediadau y dylid adnewyddu'r Cynllun Cyflawni yn ystod 2017, a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gwaith hwn yn dechrau cyn gynted â phosibl.[50]

## Y dull yn yr Alban

**41.** Yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Alban ym mis Rhagfyr, dywedodd Llywodraeth yr Alban wrth Aelodau ei bod yn ceisio darparu amgylchedd statudol sy'n galluogi i adsefydlu ffoaduriaid yn yr Alban, sy'n cynnwys dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwarcheidwaid i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

**42.** Mae ei strategaeth ffoaduriaid 'New Scots' (sydd wrthi'n cael ei hadnewyddu) yn canolbwyntio ar egwyddor cymorth ac integreiddio o'r diwrnod cyntaf. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn:

- arwain y Tasglu Ffoaduriaid sy'n cydgysylltu'r Tasglu Ffoaduriaid, sy'n cydgysylltu ymateb yr Alban, gan weithio gydag awdurdodau lleol, asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau y gall unrhyw ffoaduriaid sy'n dod i mewn i'r Alban gael eu hintegreiddio'n llwyddiannus;
- sefydlu gwefan Scotland Welcomes Refugees, sy'n amlinellu camau gweithredu'r llywodraeth ac yn darparu gwybodaeth am sut y gall pobl helpu;
- ariannu rhwydweithiau integreiddio amrywiol, gan gynnwys y Rhaglen Bridges, sy'n cefnogi integreiddio ffoaduriaid, ceiswyr lloches, mudwyr ac unrhyw un sydd â Saesneg fel ail iaith yn gymdeithasol, addysgol ac economaidd;

---

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, RAS 09.
[49] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraffau 22 a 32.
[50] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor, 16 Mawrth 2017.

– darparu Cerdyn Hawl Cenedlaethol Albanwyr Ifanc i ffoaduriaid ifanc, sy'n rhoi llu o fuddion, gostyngiadau, gwobrau, gostyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus, a mynediad i wasanaethau fel llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden yn eu hawdurdod lleol;

– rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**43.** Mae Cyngor Ffoaduriaid yr Alban, sy'n elusen annibynnol, yn gweithredu cyllideb flynyddol o tua £2.4 miliwn y flwyddyn, a ddaw o gyfuniad o grantiau gwahanol a chodi arian. Mae'r Cyngor yn cael dros £1.1 miliwn gan Lywodraeth yr Alban, y mae tua £0.5 miliwn ohono yn grant strategol. (Mewn cymhariaeth, yn 2014-15, incwm Cyngor Ffoaduriaid Cymru oedd £616,000, a oedd yn ostyngiad o £1.1 miliwn yn 2013-14,, yr oedd £362,000 ohono yn dod gan Lywodraeth Cymru).[51] Mae Cyngor Ffoaduriaid yr Alban yn darparu nifer o wasanaethau, gan gynnwys:

– Gwasanaeth Gwaith Achos i Deuluoedd, sy'n wasanaeth cynghori lloches i deuluoedd (sy'n cynnwys gweithiwr allweddol);

– Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches;

– cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd cydlyniant cymunedol, fel 'Fancy a Cup of Tea with a Refugee?';

– cynnal gwaith ymchwil ar faterion fel anffurfio organau rhywiol merched (FGM) a chyflogadwyedd ffoaduriaid benywaidd;

– cynnal Gŵyl Ffoaduriaid yr Alban flynyddol a gwobrau yn y cyfryngau.

**44.** Mae Cyngor Ffoaduriaid yr Alban yn ymgyrchu i gyflwyno Bil Integreiddio Ffoaduriaid, a fyddai yn:

> "set out refugees' rights to access and enjoy the full benefit of Scottish public services, enshrine national standards for integration in law, and simplify the many provisions in Scots law that are relevant to refugee integration."

## Effaith Deddf Mewnfudo y DU 2016

**45.** Pwrpas Deddf Mewnfudo 2016 yw mynd i'r afael â mewnfudo anghyfreithlon drwy ei gwneud yn anoddach i fyw a gweithio'n anghyfreithlon yn y DU.[52] Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod y Ddeddf yn debygol o gael effaith fawr ar feysydd datganoledig gan gynnwys tai ac amddiffyn plant, ac yn debygol o gynyddu amddifadrwydd.

**46.** Dywedodd Hayley Richards, Swyddog Polisi ac Eiriolaeth Oxfam, wrth y Pwyllgor mai ei phrif bryder ynghylch dull Llywodraeth Cymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches oedd sut yr oedd yn delio â materion nad ydynt wedi'u datganoli. Esboniodd:

> "…the Immigration Act impacts on a variety of devolved policy areas, such as housing and looked-after children, and there seems to be total disparity to how the Welsh Government approached the Welfare Reform Act 2012, for example, where there was a significant amount of research commissioned by the Institute for Fiscal Studies. There were action plans developed on what actions

[51] Ymddiriedolwyr Cyngor Ffoaduriaid Cymru Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015.
[52] Deddf Mewnfudo 2016 Nodiadau Esboniadol.

the Welsh Government could take to mitigate negative impacts of welfare reform on people living in Wales, but, to our knowledge, there's been no such action taken with regard to the Immigration Act or potential changes to the immigration rules, and what those impacts would be on people in Wales and how we could mitigate those impacts."[53]

**47.** Galwodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru ar Lywodraeth Cymru i:

> "commit to exploring the impact of the Immigration Act 2016 on individuals, devolved public service and local authorities in Wales, commissioning additional research where necessary and putting in place policies to mitigate any negative impacts."[54]

**48.** Mae Atodlen 11 o'r Ddeddf yn dod â chymorth i ben i geiswyr lloches aflwyddiannus nad ydynt yn dangos eu bod yn cymryd camau i ddychwelyd i'w gwlad wreiddiol. Esboniodd Elinor Harris, Rheolwr Gwasanaethau ar gyfer Olrhain Teuluoedd Rhyngwladol a Chymorth Ffoaduriaid yn y Groes Goch Brydeinig, y newid hwn:

> "If you are in Home Office accommodation and your asylum claim is refused and you have children, then currently that accommodation continues. One of the things that the Immigration Act does, which will come in sometime next year, is that it takes away that provision. That's something that really needs to be thought about in advance, because there is a decision then for social services departments about how they support those children and families."[55]

**49.** Os yw cais ceisiwr lloches yn methu, ystyrir nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus (NRPF). Er bod hyn yn golygu na allant gael gafael ar arian cyhoeddus (gan gynnwys y rhan fwyaf o fudd-daliadau a thai awdurdod lleol), nid yw pobl gyda NRPF wedi'u hatal rhag cael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol mewn rhai sefyllfaoedd. Gwnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyflwyno newidiadau i'r cymorth sydd ar gael i fudwyr amddifad. Effaith y newidiadau oedd bod yn rhaid i angen person am ofal a chymorth fod yn annibynnol ar effaith eu hiechyd a lles o fod yn amddifad neu'r effaith a ragwelir o fod yn amddifad.

**50.** Roedd Naomi Alleyne o CLILC yn pryderu ynghylch goblygiadau'r darpariaethau hyn ar gyfer awdurdodau lleol, sydd â dyletswyddau i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed ac yn amddifad, oherwydd gallai'r darpariaethau arwain at gynnydd o amddifadrwydd neu gynnydd yn y bobl a'r teuluoedd yn yr ardal honno.[56] Dywedodd y byddai CLILC yn hoffi gweld mwy o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru o ran sut y gallant asesu beth allai goblygiadau hynny fod a sut i ymateb i hynny.[57]

**51.** Roedd Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr Tai Pawb, yn rhagweld cynnydd yn y galw am wasanaethau awdurdodau lleol, yn benodol gan bobl â theuluoedd. Roedd yn pryderu am bobl nad

---

[53] Tystiolaeth lafar, Hayley Richards (Oxfam), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 181.
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.
[55]Tystiolaeth lafar, Elinor Harris (y Groes Goch Brydeinig), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 289.
[56] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 101.
[57] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 36.

ydynt, o bosibl, yn ymwybodol o'r hyn y gallant eu cael ac yn credu y gallem weld mwy o bobl yn cysgu ar y stryd.[58]

**52.** Dywedodd Tai Pawb wrth y Pwyllgor hefyd:

> "The eligibility rules for asylum support [..] are set to change considerably due to the Immigration Act 2016's reforms to Section 95 of the Immigration and Asylum Act 1999 and the introduction of the new Home Office regulated framework for local authority support to migrant families and children. These changes are expected to take effect in Spring 2017. The multitude of changes to support for destitute migrants are not yet well understood and present a high risk of misapplication due to their complexity."[59]

## Profion Hawl i Rentu

**53.** Roedd Deddf Mewnfudo 2014 yn darparu ar gyfer profion Hawl i Rentu gan ei wneud yn orfodol i landlordiaid wirio statws mewnfudo pob tenant oedolyn newydd. Mae Deddf Mewnfudo 2016 yn ehangu cwmpas y profion 'Hawl i Rentu' drwy greu troseddau newydd drwy rentu llety i fudwyr anghymwys (Adran 39), gan roi pwerau newydd i landlordiaid derfynu trefniadau tenantiaeth (Adran 40) a chael meddiant (Adran 41).

**54.** Mae Deddf 2016 yn ei gwneud hi'n drosedd i rentu i berson sy'n anghymwys o ganlyniad i'w statws mewnfudo. Ar hyn o bryd mae hyn yn berthnasol i Loegr yn unig, ond mae gan Ysgrifennydd Gwladol y DU bŵer i alluogi unrhyw un o'r darpariaethau tenantiaeth preswyl i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**55.** Dywedodd Tai Pawb wrth y Pwyllgor eu bod yn gwybod mai bwriad Llywodraeth y DU yw ehangu'r profion 'Hawl i Rentu' i Gymru a'u bod yn pryderu y bydd y profion hyn yn arwain at amddifadrwydd a chynnydd mewn digartrefedd, gan roi mwy o bwysau a chostau ar awdurdodau lleol sydd eisoes o dan bwysau. Roeddent yn rhagweld cynnydd mewn digartrefedd a nifer yr achosion Dim Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF) a gyflwynir i'r gwasanaethau cymdeithasol.[60]

**56.** Tynnodd Tai Pawb sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymysg landlordiaid yng Nghymru, a dywedodd y gallai'r Ddeddf, o bosibl, waethygu pryderon rhentu i unrhyw un heb statws mewnfudo clir neu ddogfennaeth gan felly gynyddu gwahaniaethu anfwriadol.[61] Eglurodd Tracey Sherlock, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Cyngor Ffoaduriaid Cymru mai'r effaith bosibl yw y byddai landlordiaid, yn enwedig landlordiaid â phortffolio bach, yn osgoi rhentu eiddo i unrhyw un sy'n awgrymu y gallent fod yn destun statws mewnfudo. Dywedodd fod gwaith ymchwil eisoes wedi dangos y gallai landlordiaid wneud y penderfyniad hwnnw am bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn benodol.[62]

**57.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r Ddeddf ond mae'n cydnabod nad ydynt wedi gwneud llawer o waith ar y Ddeddf mewnfudo yng Nghymru gan ei bod, unwaith eto, yn swyddogaeth nad yw wedi'i datganoli, ond mae ganddi ganlyniadau anuniongyrchol ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Dywedodd eu bod yn monitro

---

[58] Tystiolaeth lafar, Alicja Zalesinska (Tai Pawb), 11 Ionawr 2017, paragraff 199.
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, RAS 17.
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, RAS 17.
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, RAS 17.
[62] Tystiolaeth lafar, Tracey Sherlock (Cyngor Ffoaduriaid Cymru), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 206.

hynny'n ofalus iawn i weld beth allai hynny olygu ond nad yw'r Llywodraeth hyd yma wedi gweld unrhyw newidiadau sylweddol i sut mae pethau'n gweithio ar lawr gwlad.

**58.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddyddiad penodol y bydd y profion Hawl i Rentu yn cael eu cyflwyno i Gymru ond awgrymodd y gallai fod yn rhywbeth y gallai gael eglurhad yn ei gylch gan y Swyddfa Gartref ar ran y Pwyllgor. Cadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol ar hyn o bryd ei fod am gael ei gyflwyno yng Nghymru yn fuan.[63] Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet wedi hynny ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo ar 28 Chwefror 2017.[64]

## Barn y Pwyllgor

**59.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i adolygu'r Cynllun Cyflawni yn 2017, ac yn hyderus y bydd yr adroddiad hwn, a'r cyfoeth o adborth a syniadau ynghylch y Cynllun o'n tystiolaeth, yn ddefnyddiol. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen cryfhau'r Cynllun yn sylweddol, ac yn benodol, bod angen iddo fod yn fwy penodol ynghylch beth fydd yn cael ei gyflawni, gan bwy, erbyn pryd a chyda pha adnoddau – a sut y bydd y gwaith o gyflawni a'r canlyniadau yn cael eu monitro.

**60.** Roedd y Pwyllgor yn fodlon iawn ar ansawdd yr arweinyddiaeth strategol, y gwaith cydgysylltu ar draws sectorau a'r gwaith cyflawni lleol a ddisgrifiwyd gan randdeiliaid yn yr Alban, ac mae'n cymeradwyo dull yr Alban i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'r Pwyllgor am weld:

- safonau ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n debyg i'r rhai yn yr Alban fel rhan o ymdrech ar y cyd i helpu ardaloedd nad ydynt yn hanesyddol wedi derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches; a
- chamau i wella canfyddiadau'r cyhoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, gwefan gyfatebol i wefan Scotland Welcomes Refugees, Gwasanaeth Gwaith Allweddol i Deuluoedd, a chynllun gwobrwyo yn y cyfryngau.

**61.** Mae'n amlwg i'r Pwyllgor o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod yna system ddwy haen ar gyfer lloches, sy'n arwain at bobl sy'n cyrraedd Cymru yn cael eu trin yn anghyfartal, a gall hynny arwain at densiynau mewn cymunedau. Mae'r gwahaniaeth hwn yn tarddu o benderfyniad Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU i flaenoriaethu cymorth i ffoaduriaid o Syria, gan gynnwys creu llwybr carlam ar gyfer eu gwaith papur drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ond mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan ddull gweithredu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sefydlu Tasglu a Bwrdd Gweithrediadau yn arbennig ar gyfer ffoaduriaid o Syria, a'r cymorth a ddarperir i ffoaduriaid o Syria yn unig gan y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol. Rydym yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet os oes system ddwy haen yn bodoli nad yw'n fwriadol.

**62.** Mae'r Pwyllgor am i bob awdurdod lleol yng Nghymru fod yn hollol barod i adsefydlu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac i adeiladu ar y profiad o weithredu'r SVPRP.

**63.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r penderfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet, yn sgil ein sylwadau a gyflwynyd gennym iddo yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom, i ehangu cwmpas yr hyn sydd bellach yn Fwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru i gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches o bob gwlad.

---

[63] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraffau 88 a 98.
[64] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor, 16 Mawrth 2017.

**64.** Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch amlder, tryloywder a chynaliadwyedd y trefniadau hyn, gan gynnwys cynllun gwaith clir, cyfarfodydd rheolaidd a chofnodion wedi'u cyhoeddi.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i amserlen benodol i gynnal ymgynghoriad cyflym ond cynhwysfawr ar Gynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ac adolygiad o'r Cynllun hwnnw. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys camau gweithredu mesuradwy, amserlenni ac adnoddau, a dylai gynnwys arfer gorau o'r Alban, gan gynnwys safonau ar gyfer darparu gwasanaethau a mentrau sydd wedi'u hanelu at wella canfyddiadau'r cyhoedd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnal cyfarfodydd chwarterol o Fwrdd Gweithrediadau Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru, a sicrhau bod gan y Bwrdd raglen waith glir ac yn cyhoeddi cofnodion o'r cyfarfodydd.

**65.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn ymddangos fel petai wedi asesu effaith Deddf Mewnfudo 2016 unwaith y caiff ei gweithredu yng Nghymru, ac yn credu o ystyried y goblygiadau ariannol posibl y dylid cywiro hyn cyn gynted â phosibl. Mae'n ymddangos bod y fframwaith cyfreithiol a nodwyd yn y Ddeddf Mewnfudo yn gwrth-ddweud y dull ataliol a nodwyd yn neddfwriaeth Cymru, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**66.** Yn sgil pryderon rhanddeiliaid, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, ymchwilio i amseru ac effaith (gan gynnwys ar gysylltiadau hil) y penderfyniad i ehangu darpariaethau'r Ddeddf ynghylch profion Hawl i Rentu ar Gymru.

**67.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch effaith y Ddeddf ar geiswyr lloches aflwyddiannus, sy'n gwneud newidiadau i faes cymhleth o'r gyfraith ac a allai beryglu rhoi mwy o unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed mewn perygl, yn ogystal ag achosi dryswch, iddyn nhw ac i ddarparwyr gwasanaeth, ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael. Rydym o'r farn bod gwrthod arian cyhoeddus i blant mewn angen yn wrthdaro'n uniongyrchol ag ysbryd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol i ddeall y newidiadau a sicrhau eu bod yn galluogi ceiswyr lloches aflwyddiannus i gael gafael ar unrhyw wasanaethau y mae hawl ganddynt i'w cael.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad ar unwaith o'r effaith y bydd Deddf Mewnfudo y DU 2016 yn ei chael ar Gymru. Dylai'r asesiad hwn gynnwys canfod pryd y bydd y prawf Hawl i Rentu yn cychwyn yng Nghymru, ac effaith y Ddeddf ar y cymorth sydd ar gael i geiswyr lloches aflwyddiannus a'u teuluoedd. Dylai Llywodraeth Cymru drafod ei hasesiad gyda'r Swyddfa Gartref a gofyn am arian ychwanegol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol a godir o'r ddeddfwriaeth. Yna dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol, landlordiaid a rhanddeiliaid eraill yn barod ar gyfer effaith y newid hwn yn y gyfraith, gan gynnwys cyhoeddi a lledaenu canllawiau cynhwysfawr.

# 03. Integreiddio

Roedd integreiddio yn thema allweddol yn y dystiolaeth a ddaeth i law y Pwyllgor. Dywedodd tystion ei bod yn hanfodol bod ymdrechion i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymunedau lleol yn cael eu cefnogi fel bod dinasyddion o Gymru yn cael cyfle i gyfrannu at gymdeithas Cymru yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn hytrach na chael eu hynysu.

## Polisi

**68.** Mae **Egwyddorion Sylfaenol Cyffredin yr UE ar Integreiddio** yn diffinio integreiddio fel proses ddwy ffordd ddynamig ar gyfer llety i fewnfudwyr a phreswylwyr. Ehangir ar y diffiniad yn **Siarter Integreiddio Dinasoedd Ewrop**, sydd wedi'i llofnodi gan 37 o ddinasoedd gan gynnwys Bryste, Dulyn, Llundain a Manceinion:

> "Integration is a two-way process, built on positive engagement by both newcomers and established residents. The process takes in all aspects of life: economic, social, cultural, civic and political, and continues a long time after arrival. Learning and speaking the official language of the city is crucial to this process and is essential to interaction. The greatest challenge we face is polarisation and conflict between newcomers and established residents when integration fails."

**69.** Mae **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol** Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2014 ac a gafodd ei adnewyddu ar gyfer 2016-17 (y Cynllun Cydlyniant) yn nodi sut y bydd awdurdodau lleol yn prif ffrydio cydlyniant cymunedol o dan saith canlyniad, ac un o'r canlyniadau hynny yw mewnfudo. Dywedodd Cyngor Torfaen fod y cynllun hwn wedi bod yn lasbrint i gydgysylltwyr cydlyniant archwilio sut y caiff cyfeiriadedd diwylliannol ac integreiddio cymunedol eu cynnwys yn nulliau awdurdodau sy'n adsefydlu pobl.[65]

**70.** Roedd Rocio Cifuentes o EYST yn Abertawe yn teimlo bod angen ehangu ar y term cydlyniant cymunedol. Esboniodd:

> "We need to look at class inequalities in our society and the huge gap between rich and poor. If we're talking about people not integrating, I think class gaps are the biggest and most entrenched issues that we face… It's not an issue that is just about ethnic minorities, and I feel that the discussion around community cohesion needs to embrace and understand that far more effectively. Otherwise, it sounds to people like we're just talking about a problem that we don't want to talk about, which is immigration."[66]

**71.** Amlygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y cysylltiadau pwysig rhwng cydlyniant cymunedol a Chynlluniau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n codi cyfle i gynnwys materion cydlyniant cymunedol ar draws cynlluniau a strategaethau allweddol.[67]

---

[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Torfaen, RAS 35.
[66] Tystiolaeth lafar, Rocio Cifuentes (EYST), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 273.
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru, RAS 36.


**72.** Ar lefel ymarferol, nododd BIP Hywel Dda bryderon ei bod yn ymddangos bod gweithgareddau'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol yn canolbwyntio ar ardal Caerdydd. Roeddent yn cydnabod y gallai hyn fod lle caiff niferoedd mwy o ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hadsefydlu ond dadleuwyd y bydd yn bwysig sicrhau bod y gwaith o integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches a adsefydlir mewn mannau eraill mewn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell yn cael eu hwyluso yn yr un modd.[68]

**73.** Dywedodd EYST fod y Cynllun Cydlyniant yn canolbwyntio'n ormodol ar fynd i'r afael â throsedd casineb ac yn canolbwyntio'n annigonol ar atal trosedd casineb ac herio agweddau casineb gan ddweud eu bod fel "closing the stable door after the horse has bolted". Eglurwyd bod y cynllun hefyd yn peryglu porth i ystrydebau hiliol a'u cynyddu drwy ganolbwyntio ar faterion penodol fel caethwasiaeth fodern a chymunedau sipsiwn a theithwyr, yn hytrach na'r mater ehangach a chyffredinol sef hiliaeth.[69] Cefnogir hyn gan waith ymchwil o 2008 gan Sefydliad Joseph Rowntree i fewnfudo a chynhwysiant yn ne Cymru:

> "There is a real need to avoid the common-sense, and now institutionalised, tendency to link together race equality, community cohesion and issues of community safety and extremism, and a related need to explore cohesion issues across settled and new communities, groups and areas."

**74.** Dywedodd Dinas a Sir Abertawe fod y Cynllun Cydlyniant weithiau'n creu dryswch dros gyfrifoldebau fel Gwasanaethau Cymdeithas sydd â chyfrifoldeb yn y pen draw dros amddiffyn ac o ran agendâu adsefydlu/integreiddio ceiswyr lloches a ffoaduriaid a galwodd am gyfrifoldebau cyffredinol dros y meysydd hyn a phwyslais yn y Cynllun Cydlyniant ar bwysigrwydd amddiffyn.[70]

**75.** Clywodd y Pwyllgor yn ystod ei ymweliad â'r Alban y gallai'r strategaeth New Scots newydd ddefnyddio dangosyddion integreiddio a ddatblygwyd gan Alastair Ager ac Alison Strang yn 2004 mewn adroddiad i'r Swyddfa Gartref. Nod y gwaith hwn yw sefydlu fframwaith ar gyfer dealltwriaeth gyffredin o integreiddio, a chynllunio'r fframwaith i'w ddefnyddio gan brosiectau lleol a gwneuthurwyr polisi i'w helpu i gynllunio a gwerthuso gwasanaethau i ffoaduriaid.




[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, BILI Hywel Dda, RAS 05.
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, EYST, RAS 33.
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dinas a Sir Abertawe, RAS 28.

**76.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd am ystod eang o ddulliau i integreiddio cymunedol ledled Cymru, yr ydym yn eu cymeradwyo i bartneriaethau lleol ledled y wlad ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A.

**77.** Gwnaeth rhanddeiliaid awgrymiadau i'r Pwyllgor am ffyrdd i hwyluso integreiddio a chydlyniant cymunedol, Roedd y trefniadau'n cynnwys:

- mynediad i safleoedd hamdden a diwylliannol;[71]
- gwell defnydd o grwpiau llawr gwlad;[72]
- lledaenu gwybodaeth yn well am sut y gall ffoaduriaid ymgysylltu â'r gwaith o ddarparu celfyddydau, diwylliant a chwaraeon;[73]
- gwell ymwybyddiaeth o ddiwylliant unigryw Cymru, gan gynnwys arwyddocâd y Gymraeg mewn addysg, diwylliant a hunaniaeth;[74]
- mwy o ddefnydd o wefannau fel **Help Refugees**;[75] a
- mwy o gysylltiadau rhwng pobl ifanc, drwy roi eu straeon ar gyfryngau cymdeithasol, cysylltu â rhwydweithiau Cymru Ifanc, gan gysylltu ag unrhyw fforwm ieuenctid a grŵp ieuenctid.[76]

**78.** Clywodd y Pwyllgor mai rhan hanfodol o integreiddio oedd nodi, gwerthfawrogi a harneisio'r cyfraniad unigryw y gallai pob ffoadur/ceisiwr lloches ei gwneud i gymdeithas Cymru – fel y dywedodd Salah Rasool, Gweithiwr Achos Cyngor gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, mae'n ymwneud ag ymrymuso unigolion a chydnabod eu sgiliau.[77] Dywedodd Anne Hubbard o WSMP wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw archwiliad sgiliau systematig yn cael ei gynnal, ac awgrymodd y dylid cael strategaeth sgiliau er mwyn i ffoaduriaid wir allu ailadeiladu eu bywydau.[78]

**79.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor am yr arolwg diweddar gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig i Ffoaduriaid a dreuliodd sawl diwrnod yng Nghymru, gan siarad â ffoaduriaid am integreiddio a chydlyniant cymunedol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y sesiwn adborth fod yr Uchel Gomisiynydd wedi bod yn falch iawn â'r cynnydd sy'n digwydd yng Nghymru ac yn ganmoliaethus iawn o awdurdodau lleol, ac yn benodol y cymunedau yng Nghymru a pha mor groesawgar oeddent.[79]

**80.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd at waith a wnaed gyda chymunedau i'w paratoi at pan fydd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cyrraedd i gael gwared ar unrhyw rwystrau, ofnau neu bryderon a allai fod gan bobl ac i'r rhaglen School of Sanctuary, sy'n seiliedig ar dair egwyddor dysgu, cynnwys a rhannu.[80] Roedd yn cydnabod eu bod yn talu swm sylweddol o arian i waith rhanbarthol gweithrediadau cydlyniant cymunedol, a dywedodd y byddai hyn yn parhau.[81]

---

[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, **RAS 21**.
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pobl i Bobl, **RAS 40**.
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pobl i Bobl, **RAS 40**.
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pobl i Bobl, **RAS 40**.
[75] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 137.
[76] Tystiolaeth lafar, Catriona Williams (Plant yng Nghymru), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 267.
[77] Tystiolaeth lafar, Salah Rasool (Cyngor Ffoaduriaid Cymru), **7 Rhagfyr 2016**, paragraff 193.
[78] Tystiolaeth lafar, Anne Hubbard (WSMP), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 33.
[79] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, **19 Ionawr 2017**, paragraff 91.
[80] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, **19 Ionawr 2017**, paragraff 67.
[81] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, **19 Ionawr 2017**, paragraff 91.

**81.** Hefyd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y pecyn 'Croeso i Gymru' yn llwyddiannus. Dywedodd Cyngor Ceredigion fod y pecyn yn syniad da a'i fod yn boblogaidd iawn ond dywedodd hefyd y dylai'r pecynnau gael eu gwirio am gywirdeb cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r ffoaduriaid.[82]

## Cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol

**82.** Mae wyth cydgysylltydd cydlyniant cymunedol yng Nghymru, sy'n gweithio gyda Syriaid a adsefydlir drwy'r SVPRP. Nid ydynt yn gweithio gyda newydd-ddyfodiaid dirybudd.

**83.** Roedd awdurdodau lleol yn gefnogol iawn o waith y cydgysylltwyr. Disgrifiodd y CLILC y rôl allweddol y mae'r cydgysylltwyr wedi'i chwarae wrth gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio a pharatoi i ffoaduriaid gyrraedd ac adsefydlu o dan y SVPRP, drwy:

- sicrhau bod awdurdodau lleol a rhanbarthau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac y gallant ddarparu adborth;
- rhannu gwybodaeth ar draws y rhanbarth i helpu i osgoi dyblygu a chreu cysondeb;
- rhoi cymorth ymarferol o ran trefnu i ffoaduriaid gyrraedd ardaloedd lleol; a
- monitro tensiynau cymunedol a chynnig cyngor a chymorth ar ymgysylltu â chymunedau lleol i baratoi ardaloedd ar gyfer ffoaduriaid yn cyrraedd.[83]

**84.** Disgrifiodd y Parchedig Ganon Aled Edwards o Alltudion ar Waith y cymorth y mae cydgysylltwyr hefyd yn eu darparu i sefydliadau lleol:

> "…when we confront…intensely difficult moral decisions about breaches of confidence when we suspect, for example, that people may be trafficked or are about to be abused. We will talk with each other, but we will talk with these officers, seek their advice and act on it. And from the point of view of an organisation, where we are extremely vulnerable at the rock face of the issues, having those key staff members there is immensely useful to us."[84]

## Hygyrchedd a fforddiadwyedd gwasanaethau

**85.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor fod integreiddio yn anoddach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan eu bod wedi wynebu heriau i gael gafael ar wasanaethau hanfodol. Nodwyd bod trafnidiaeth yn un rhwystr allweddol.[85]

**86.** Dywedodd Roisin O'Hare, nyrs ceiswyr lloches yn BIP AB, wrth y Pwyllgor fod nifer o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ardal Casnewydd, er enghraifft, yn awyddus i wirfoddoli mewn cymunedau lleol ond nad oeddent yn gallu fforddio teithio i'r cyfleoedd gwirfoddoli ac yn ôl.[86]

**87.** Rhoddodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru enghraifft arall:

> "A lack of travel support prevents young asylum-seekers from continuing to sixth form college level, as there is no funding for public transport. Many young

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ceredigion, RAS 38.
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, RAS 32.
[84] Tystiolaeth lafar, Aled Edwards (Alltudion ar Waith), 11 Ionawr 2017, paragraff 302.
[85] Tystiolaeth lafar, Sian Summers-Rees (City of Sanctuary), 7 Rhagfyr 2017, paragraff 5.
[86] Tystiolaeth lafar, Roisin O'Hare (BILI AB), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 423.

asylum-seekers are leaving school/ college because their parents cannot afford travel costs and the young people are prohibited from seeking work so their lives are placed on hold to their short and long-term detriment."[87]

**88.** Cafodd hyn ei ategu gan brofiadau a rannwyd â'r Pwyllgor ar ymweliadau â Chaerdydd ac Abertawe. Clywodd y Pwyllgor fod teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio anfon plant ar dripiau ysgol a hyd yn oed brynu gwisg ysgol.

**89.** Clywodd y Pwyllgor hefyd ar ein hymweliadau fod dibynadwyedd a fforddiadwyedd trafnidiaeth yn effeithio ar allu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i fynd i apwyntiadau hollbwysig a chyfleusterau canol y dref yn ogystal â chyfleoedd am waith y tu hwnt i'w cymunedau uniongyrchol.

**90.** Cyfeiriodd sawl ymatebydd i ymgynghoriad y Pwyllgor at drafnidiaeth yng nghyd-destun cael gafael ar hyfforddiant Saesneg.[88]

## Darpariaeth Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) yng Nghymru

**91.** Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu bod iaith yn hanfodol i integreiddio, ac yn arbed arian mewn mannau eraill (er enghraifft, darparu gwasanaethau cyfieithu). Dywedodd Faruk Ogut, Cydgysylltydd Prosiect Adsefydlu gydag Alltudion ar Waith wrth y Pwyllgor mai dosbarth ESOL yw'r prif beth y mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn gofyn amdano bob tro, hyd yn oed cyn eu hanghenion sylfaenol.[89]

**92.** Cefnogir y gwaith ymchwil hwn gan **adolygiad annibynnol** ar gyfer Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU gan y Fonesig Louise Casey i gyfle ac integreiddio, a ganfu fod iaith yn hanfodol er mwyn integreiddio cymunedau mewnfudo a dylid sicrhau bod rhagor o arian ar gael ar gyfer ESOL. Yn ogystal, nododd **adroddiad** Grŵp Seneddol Hollbleidiol y DU ar Integreiddio Cymdeithasol (APPGSI) i integreiddio mewnfudwyr (a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2017) y dylai fod disgwyl i bob mewnfudwr fod wedi dysgu Saesneg cyn dod i'r DU neu eu bod wedi cofrestru ar ddosbarthiadau ESOL gorfodol cyn cyrraedd.

**93.** Darpariaeth ESOL yw un o'r meysydd lle nad yw cyfrifoldeb datganoledig a heb eu datganoli yn glir. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys ymrwymiad i "wella hyblygrwydd y ddarpariaeth Saesneg fel Ail Iaith neu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)" drwy "barhau i weithredu Polisi ESOL Cymru". Cafodd y polisi ESOL ei ddiweddaru diwethaf yn 2014, cyn dechrau argyfwng ffoaduriaid Syria, ac nid oedd y Pwyllgor yn gallu gweld beth fu canlyniadau'r amcanion (yn y Cynllun Cyflawni na pholisi ESOL).

**94.** Er bod y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo yn honni bod addysg yng Nghymru yn fater datganoledig,[90] mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu cydgysylltydd ESOL newydd i Gymru i helpu a chefnogi awdurdodau lleol ar y ffordd orau o ddatblygu adnoddau ESOL. Awgrymodd Anne Hubbard, Cyfarwyddwr WSMP, ei bod yn annhebygol y bydd y capasiti ychwanegol hwn yn ddigonol. Dywedodd, wrth i'r SVPRP ddatblygu eu bod yn dechrau edrych ar fwy o faterion integreiddio mewn cysylltiad â Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, nawdd cymdeithasol, a chadw'r momentwm. Fodd bynnag, pwysleisiodd ei bod yn gymhleth ac nad oedd ganddi amser i ymateb i'r holl ymholiadau na rhoi'r

---

[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, **RAS 14**.
[88] Nodwyd hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Oxfam Cymru (RAS 10), Cynghrair Ffoaduriaid Cymru (RAS 14), Plant yng Nghymru (RAS 20) a City of Sanctuary (RAS 21).
[89] Tystiolaeth lafar, Faruk Ogut (Alltudion ar Waith), **11 Ionawr 2017**, paragraff 248.
[90] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, **28 Chwefror 2017**.

cymorth sydd eu hangen ar awdurdodau lleol a'u partneriaid ar rai o'r cwestiynau yn gysylltiedig â hyn, fel ariannu a'r broses.[91]

**95.** Roedd diffyg darpariaeth ESOL yng Nghymru yn bryder mawr i'r tystion. Clywodd y Pwyllgor fod y dosbarthiadau yn llawn dop a bod pobl yn aros 1-2 mlynedd i gael lle arnynt, a'u bod yn cael eu cynnal yn bennaf gan wirfoddolwyr ac ond ar gael mewn rhai ardaloedd. Nododd Dr Mike Chick o Brifysgol De Cymru o'i brofiad ef fod darpariaeth ESOL ledled Cymru yn parhau i fod yn frawychus o annigonol a bod angen mwy o gymorth ar awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle nad oes hanes o golegau Addysg Bellach yn cynnig dosbarthiadau. Awgrymodd y gallai eraill ddysgu o'i brofiad o alluogi myfyrwyr prifysgol ESOL i wirfoddoli i addysgu ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o'u hyfforddiant.

**96.** Dywedodd Dr Chick fod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Lynx House yng Nghaerdydd yn cael tua phedair i chwe awr o ddarpariaeth yr wythnos, ddim mewn maes llafur cydgysylltiedig sy'n arwain at gymhwyster achrededig, ond yn hytrach ei fod yn ddarpariaeth dameidiog sy'n delio ar sail goroesi yn hytrach na sail broffesiynol. Disgrifiodd Dr Chick y sefyllfa anodd o ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches nad ydynt yn rhan o'r SVPRP:

> "Yet that's [the ESOL provision] not available to the refugees and asylum seekers who aren't part of that resettlement scheme… They are desperate and, for up to 12 months, the only places they can go to access ESOL courses—English-language provision—are third sector drop-in, if you like, survival classes… yet it's not enough. It doesn't contain enough hours of language provision that, for example, we'd provide at the university, if there was a Chinese student or an Omani student who wished to begin their degree in September. Upon assessing their language levels, we would provide them with a 24-hour per week English-language course to get their linguistic competency up to speed."[92]

**97.** Pwysleisiodd Dr Chick y rôl y gallai prifysgolion ei chwarae, gan fod ganddynt brofiad o ddarparu hyfforddiant iaith i fyfyrwyr rhyngwladol.[93] Nododd fod nifer o sefydliad addysg uwch yn y DU yn cynnig ysgoloriaethau a chymorthdaliadau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches hefyd, ond mai dim ond Prifysgol Caerdydd oedd yn gwneud hynny yng Nghymru.[94]

**98.** Amlygodd Dr Chick hefyd mai dim ond un cyfnod mynediad y flwyddyn sydd gan y rhan fwyaf o gyrsiau ESOL, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl sy'n cyrraedd ar ôl mis Medi aros fisoedd er mwyn i'r cwrs ddechrau.[95]

**99.** Nododd Oxfam fod angen addasu darpariaeth ESOL i fenywod â phlant bach, a bod trafnidiaeth yn aml yn rhwystr i bobl mewn ardaloedd anghysbell.[96] Mae Cynghrair Ffoaduriaid Cymru o'r farn nad

---

[91] Tystiolaeth lafar, Anne Hubbard (WSMP), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 8.
[92] Tystiolaeth lafar, Dr Mike Chick, 11 Ionawr 2017, paragraffau 28 a 42.
[93] Tystiolaeth lafar, Dr Mike Chick, 11 Ionawr 2017, paragraffau 98 i 99.
[94] Tystiolaeth lafar, Dr Mike Chick, 11 Ionawr 2017, paragraff 94.
[95] Tystiolaeth lafar, Dr Mike Chick, 11 Ionawr 2017, paragraff 13.
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru, RAS 10.

oes tystiolaeth o ddarpariaeth ESOL yn erbyn angen ESOL ac awgrymodd y gallai asesiad o sgiliau ar ôl cyrraedd helpu i gynllunio darpariaeth yn fwy effeithiol.[97]

**100.** Amlygodd rhanddeiliaid yr angen hefyd am fynediad i ddosbarthiadau Cymraeg,[98] a dywedwyd wrth y Pwyllgor fod peth darpariaeth ar gyfer hyn, er enghraifft yng ngogledd-orllewin Cymru.[99]

**101.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyfrifoldeb dros ESOL. Roedd yn cydnabod bod y system ESOL o dan bwysau a bod gofal plant yn aml yn rhwystr i nifer o wasanaethau. Aeth ati i nodi bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno addewid gofal plant ac y bydd yn ystyried hynny ymhellach yn ei safbwyntiau ar beth mae ESOL yn ei wneud ar hyn o bryd a sut y gallant wneud y gorau ohono.[100]

## Rôl y cyfryngau

**102.** Un o'r prif gasgliadau yn sgil **ymweliad** y Pwyllgor â'r Alban oedd bod y cyfryngau, terminoleg ac arweinyddiaeth wleidyddol yn yrwyr allweddol o ran agweddau cyhoeddus tuag at ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae Llywodraeth yr Alban a Chyngor Ffoaduriaid yr Alban yn defnyddio'r term "New Scots", ar ôl cydnabod bod termau fel "ceiswyr lloches" wedi'i israddio.

**103.** Mae adroddiad Prifysgol Coventry, **Beyond fear and hate: Mobilising people power to create a new narrative on migration and diversity** (Hydref 2016) yn nodi nifer o enghreifftiau o arfer da ar draws y byd. Daeth i'r casgliadau a ganlyn:

> "Negative political and media debates on migration and diversity undermine the integration of those who are newly arrived and they do far more than that. They also threaten relationships within and between long established communities, undermining a common sense of identity and solidarity and raising questions about the values on which societies are based."

**104.** Clywodd y Pwyllgor bryderon gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru ac Oxfam Cymru fod rhai awdurdodau lleol yn ceisio atal y cyfryngau rhag cysylltu ac adrodd am ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd oherwydd pryderon am densiynau cymunedol a throsedd casineb. Dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor mai camganfyddiad oedd hyn, a bod awdurdodau lleol wedi bod yn:

> "very concerned about protecting the privacy of refugees who are arriving, particularly in areas that may not be that diverse, where people can be identified, but also around protecting the interests of those who've been through quite a traumatic time."[101]

**105.** Nododd CLILC fod mewnfudo yn un o'r prif bryderon a nodwyd gan nifer fawr iawn o bleidleiswyr mewn etholiadau diweddar ac yn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a bod hyn wedi arwain at densiynau cymunedol mewn rhai ardaloedd a throseddau casineb a gwrthdystiadau yn erbyn ffoaduriaid yn cyrraedd mewn ardaloedd lleol.[102]

---

[97] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, **RAS 14**.
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch, **RAS 4**.
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, Awdurdodau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, **RAS 29**.
[100] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, **19 Ionawr 2017**, paragraffau 46 a 54.
[101] Tystiolaeth lafar, Naomi Alleyne (CLILC), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 141.
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, **RAS 32**.

**106.** Nododd nifer o ymatebion, gan gynnwys WSMP nad yw'r ewyllys da cymunedol o ganlyniad i argyfwng ffoaduriaid wedi'i ddefnyddio'n llawn na'i harneisio.[103] Nododd Pobl i Bobl, er bod diffyg gwasanaethau integreiddio ffurfiol yn y gogledd-orllewin, fod cymorth cymunedol cryf i ffoaduriaid yn ardal y gogledd-orllewin, sydd wedi arwain at integreiddio llwyddiannus, er ei fod yn gymharol anffurfiol ac yn ad hoc.[104]

**107.** Galwodd Rocio Cifuentes o EYST am:

- negeseuon llawer cryfach gan wleidyddion wedi'u hidlo drwy'r cyfryngau i gyd
- ymgyrchoedd wedi'u cynllunio o amgylch pwyntiau allweddol yn y calendr fel Mis Hanes Pobl Dduon, Wythnos Ffoaduriaid a Diwrnod y Cenhedloedd Unedig yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil;
- strategaeth gyfathrebu llawer mwy effeithiol sy'n edrych ar gyrraedd y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy ba bynnag gyfrwng y maent yn ei ddefnyddio'n bennaf.

**108.** Nododd Ms Cifuentes fod y South Wales Evening Post wedi bod yn gefnogol iawn ac yn enghraifft dda iawn o gyfryngau yn cefnogi materion ffoaduriaid a cheiswyr lloches.[105]

**109.** Roedd City of Sanctuary yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i godi ymwybyddiaeth, herio mythau ac ystrydebau a hyrwyddo cyfraniad cadarnhaol y bobl sy'n chwilio am loches gan fod hyn yn hanfodol i gydlyniant cymunedol yn gyffredinol. Roeddent yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod negeseuon clir i'w clywed mewn perthynas â chroesawu'r rhai ar yr SVPRP mewn mannau oedd ag ychydig o brofiad yn flaenorol o ffoaduriaid.[106] Dywedodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru fod codi ymwybyddiaeth yn hanfodol i gydlyniant cymunedol:

> "It means humanising the 'refugee' through positive stories about their contribution to Welsh life and by maximising opportunities for other local people to meet, hear from and work alongside refugees. It also means publicising the variety of ways in which welcome and support is offered to refugees by Welsh people and includes awareness-raising within refugee communities themselves."[107]

**110.** Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet enghreifftiau i'r Pwyllgor o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys:

- Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru i Gyngor Ffoaduriaid Cymru ddatblygu rhaglenni yn y cyfryngau sy'n hyrwyddo arfer da drwy herio gwahaniaethu yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches;
- rhoi arian i Ganolfan y Drindod i gynnal cyfres o brosiectau i gael gwared ar rwystrau rhwng cymunedau yng Nghaerdydd, gan gynnwys creu tîm pêl-droed, prosiect 'Cerddoriaeth heb Ffiniau' a mentrau eraill;

---

[103] Tystiolaeth lafar, Anne Hubbard (WSMP), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 29.
[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pobl i Bobl, RAS 40.
[105] Tystiolaeth lafar, Rocio Cifuentes (EYST), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 257.
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.

– 'A guide when making media representations with Asylum Seekers and Refugees in Wales' gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru;

– rhaglen ddogfen ar y BBC a oedd yn olrhain bywyd a thaith ffoaduriaid o Syria a adsefydlwyd yn y DU, a oedd yn cynnwys aduno un teulu a bywyd yn y DU i deulu arall ac roedd yn rhoi gwybodaeth am hawliau ffoaduriaid yn y DU.[108]

## Barn y Pwyllgor

**111.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed yr ymdrechion a wneir ledled Cymru i annog integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn effeithiol yn ein cymunedau, ac yn rhannu balchder Ysgrifennydd y Cabinet bod yr ymdrechion hyn wedi'u cydnabod gan Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Fodd bynnag, rydym am weld gwaith monitro a gwerthuso mwy rheolaidd a systematig gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni lleol o'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ymgartrefu mewn cymunedau yng Nghymru, ac i helpu preswylwyr sefydledig i'w croesawu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai dangosyddion Ager/Strang o fframwaith integreiddio yn fan cychwyn defnyddiol i werthuso'n briodol yn ogystal â chynllunio gwasanaethau at y dyfodol.

**112.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2016-17, a rôl y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol, yn sgil adborth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn a datblygiadau parhaus o ran yr heriau lleol a rhyngwladol mewn cysylltiad â mewnfudo a lloches. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi gwaith y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol, ond yn synnu o ddeall eu bod yn ond yn rhoi cymorth i bobl sy'n cyrraedd drwy'r Rhaglen Adsefydlu Pobl sy'n Agored i Niwed o Syria (SVPRP). Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r cydgysylltwyr allu gweithio gyda phob ffoadur a cheisiwr lloches, er mwyn osgoi atgyfnerthu'r system dwy haen ac er mwyn hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

**113.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r enghreifftiau a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet o ymdrechion i harneisio ysbryd cymunedol a sylw yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth cadarnhaol o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch allbynnau a chanlyniadau a fwriadwyd a'r rhai a gyflawnwyd o'r gweithgareddau hyn a sut y maent yn cyd-fynd â'r dull strategol ehangach. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod rhaid cael y cydbwysedd cywir rhwng rhoi cyhoeddusrwydd i'r buddion i'r ddwy ochr o groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymunedau Cymru gan hefyd barchu eu preifatrwydd a chydnabod eu bod yn agored i niwed. Roedd y Pwyllgor yn fodlon iawn ar y dull a gymerwyd yn yr Alban, ac yn credu bod angen strategaeth genedlaethol fwy cydlynol a rhagweithiol yng Nghymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i adolygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2016-17. Dylai'r Cynllun diwygiedig gynnwys strategaeth gyfathrebu sy'n pwysleisio manteision mewnfudo i gymdeithas Cymru ac yn chwalu mythau ac anwiredd mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Dylai hefyd gynnwys ymgyrch cyhoeddusrwydd ledled Cymru sy'n debyg i'r un sydd eisoes wedi'i gwneud yn yr Alban.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu rôl y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol y tu hwnt i SVPRP i bob ffoadur a cheisiwr lloches i helpu i gyflawni Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol diwygiedig.

---

[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, RAS 47.

**114.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd i gyfrannu at fywyd Cymru, gan gynnwys addysg, cyflogaeth a gwirfoddoli. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid fod trafnidiaeth yn rhwystr allweddol i integreiddio a hoffem weld Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ffyrdd i helpu gyda chostau teithio.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn cynlluniau trafnidiaeth rhatach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys plant, i'w galluogi i gael gwell mynediad i addysg, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

**115.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch prinder darpariaeth ESOL i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a'r diffyg data sylfaenol ynghylch cyflenwad a galwad. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried pwysigrwydd hanfodol iaith i integreiddio ac, yn sgil hynny, lles. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd gyda phartneriaid ar bob lefel i sicrhau bod cyrsiau ESOL (a Chymraeg lle mae'n iaith gymunedol) ar gael, eu bod yn adlewyrchu, lle y bo'n bosibl, masnachau a phroffesiynau ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac yr ymdrinnir â rhwystrau i fanteisio ar hynny, megis diffyg gofal plant.

**116.** Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld yr arfer gorau a ddaeth ar ei draws mewn tystiolaeth a ddaeth i law, fel yn Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf, yn cael ei efelychu ledled Cymru. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y gall prifysgolion ei chwarae o ran ymestyn darpariaeth, o ystyried y sgiliau, y profiad a'r cyfleoedd y gallant eu darparu.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth bresennol o gyrsiau ESOL a'i asesiad o'r galw yn y dyfodol. Yna dylai weithio gydag awdurdodau lleol i gydgysylltu sgiliau a gallu mewn colegau Addysg Bellach a sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o gynllun gweithredu newydd i'w gyhoeddi cyn dechrau blwyddyn academaidd 2017/18. Dylai'r cynllun gweithredu:

- lenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth;
- sicrhau bod ffoaduriaid yn cael cynnig dosbarthiadau priodol cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd yng Nghymru; a
- mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i ddosbarthiadau.

# 04. Bywyd yn ystod y broses loches

Clywodd y Pwyllgor bryderon gan randdeiliaid am ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol tra bod pobl yn aros am ganlyniadau eu ceisiadau am loches. Roedd y pryderon yn canolbwyntio'n benodol ar ansawdd llety, iechyd, a chyngor ac eiriolaeth.

## Ansawdd llety

**117.** Clywodd y Pwyllgor nifer sylweddol o sylwadau am lety o ansawdd gwael a ddarparwyd i geiswyr lloches sy'n aros am ganlyniad eu ceisiadau am loches a thystiolaeth o hynny. Yng Nghymru, Clearsprings Ready Homes Ltd oedd yn darparu'r llety hwn (sy'n cynnwys Llety Cychwynnol yng Nghaerdydd a Llety Gwasgaru yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam) o dan gontract y Swyddfa Gartref sydd werth £119 miliwn dros bum mlynedd. Mae contract y Swyddfa Gartref (o'r enw'r contract COMPASS) wedi bod yn destun llawer iawn o waith craffu a beirniadaeth. Cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin **adroddiad i lety loches** ar 31 Ionawr 2017, a oedd yn cyd-fynd â'r dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

**118.** Ym mis Rhagfyr 2016, gwnaeth y Swyddfa Gartref **ymestyn y contract i 2019**, gyda chynnydd mewn arian i ddarparu swyddogion lles a rheoli eiddo staff.

**119.** Cyfeiriodd nifer o dystion at ansawdd llety lloches yng Nghymru.[109] Gwnaeth Tai Pawb gasglu tystiolaeth am faterion penodol, a oedd yn cynnwys:

- maint llety a gorlenwi;
- gosodiadau a dodrefn yn y llety – gan gynnwys lloriau wedi torri, boeleri ddim yn gweithio, offer annigonol, poptai ddim yn gweithio;
- aflonyddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a brofwyd yn y llety gan denantiaid eraill ac aelodau o staff;
- diffyg cynnal a chadw a thai llaith (a all achosi problemau iechyd); a
- gorfodi rhannu ystafelloedd heb asesiad risg priodol, gan gynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

**120.** Gwelodd y Pwyllgor nifer o luniau a fideos o lety lloches yng Nghaerdydd ac Abertawe, a gafodd eu trosglwyddo i Ysgrifennydd y Cabinet.[110] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai'n barod i nodi materion penodol gyda'r Swyddfa Gartref os gellid darparu tystiolaeth.

**121.** Mynegwyd pryderon am effeithiolrwydd y cwynion a phrosesau arolygu (sy'n rhan o gontract Clearsprings gyda'r Swyddfa Gartref). Roedd gan Tai Pawb bryderon dybryd ynghylch digonolrwydd y gwaith craffu ar lety a nododd y materion blaenorol gyda bandiau garddwn a drysau coch fel enghreifftiau o waith arolygu gwael y Swyddfa Gartref o gontractwyr preifat sy'n cartrefu pobl sy'n eithriadol o agored i niwed.[111]

---

[109] Roedd y rhain yn cynnwys Oasis (**RAS 01**), Cyngor Ffoaduriaid Cymru (**RAS 09**), Oxfam (**RAS 10**), Asylum Justice (**RAS 11**), Cynghrair Ffoaduriaid Cymru (**RAS 14**), a Migrant Help (**RAS 41**).
[110] Gellir gweld enghreifftiau ar **dudalen gwe ymchwiliad** y Pwyllgor.
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, **RAS 17**.

**122.** Tynnodd Anne Hubbard o WSMP sylw'r Pwyllgor at ddau ddull lle y gall preswylwyr ac awdurdodau lleol nodi pryderon gyda Clearsprings:

- fforwm cymorth gweithredol, a grëwyd gan yr WSMP gan nad yw'r broses gwynion sydd gan Clearsprings o bosibl yn effeithiol iawn. Mae'n llwyfan i awdurdodau lleol ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref a'r darparwr ynghylch darparu contractau yn ymwneud â'r llety.
- Roedd 'fforwm preswylwyr' yn cael ei gadeirio'n flaenorol gan Alltudion ar Waith, ac roedd yn fan diogel lle gallai siaradwyr lloches drafod yr holl faterion a oedd ganddynt ynghylch llety a chymorth. Ar ôl pob cyfarfod byddent yn anfon adroddiad o'r sgyrsiau hynny, a byddai Clearsprings a'r Swyddfa Gartref yn gweithredu ar rai o'r materion a nodwyd.[112]

**123.** Dywedodd Clearsprings wrth y Pwyllgor:

> "The complaints procedure is detailed in the occupancy agreement and welcome pack which provides occupants with the ability to raise complaints in writing, verbally, by email or by telephone. In addition to this the voluntary sector have copies of our policy and complaints form. Once a complaint is received we confirm within 24hrs that we have received it and we attempt to resolve the complaint within 5 working days. The complaint outcome and any failure to meet the contractual timescales are reported to the Home Office as part of the monthly contract management process."[113]

**124.** Fodd bynnag, dywedodd nifer o sefydliadau, gan gynnwys Tai Pawb, wrth y Pwyllgor fod preswylwyr yn amharod i gwyno drwy'r broses hon gan eu bod yn poeni y bydd hynny'n effeithio ar eu cais am loches.[114] Yn ôl cofnodion y Swyddfa Gartref, roedd saith cwyn ynghylch llety lloches yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2016 a mis Chwefror 2017.[115]

**125.** Er bod y llety yn cael ei reoli drwy gontract Llywodraeth y DU, mae gan awdurdodau lleol Cymru amryw o bwerau i orfodi safonau tai. Mae'r pwerau hyn yn deillio'n bennaf o Ddeddf Tai 2004, ac nid ydynt yn dibynnu ar statws preswyl y deiliad. Felly gellid gwneud cwyn i'r awdurdod lleol perthnasol ar y sail honno. Mae Cyngor Caerdydd wedi gosod hysbysiadau gorlenwi i Clearsprings yn y gorffennol.

**126.** Roedd rhai tystion yn awgrymu y dylai llety Clearsprings ddod o dan weithdrefn trwyddedu landlordiaid Rhentu Doeth Cymru, a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd landlordiaid ac asiantau ond yn cael eu cynnwys yn y cynllun Rhentu Doeth Cymru os ydynt yn gosod neu'n rheoli eiddo o dan 'denantiaeth ddomestig', sy'n cwmpasu tenantiaeth sicr, tenantiaeth fyrddaliol sicr a thenantiaeth reoleiddiedig. Bydd llety a ddarperir gan Clearsprings yn cael ei ddarparu o dan gytundeb trwydded, nid tenantiaeth ddomestig, felly ni fydd yn dod o dan gynllun Rhentu Doeth Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad oedd yn ymwybodol o hyn, a nododd y byddai'n gofyn i'w swyddogion edrych ar y mater.[116]

---

[112] Tystiolaeth lafar, Anne Hubbard (WSMP), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 68.
[113] Llythyr gan Clearsprings Ready Homes Ltd at Gadeirydd y Pwyllgor, 18 Ionawr 2017.
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, RAS 17.
[115] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, 28 Chwefror 2017.
[116] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 6.

**127.** Roedd nifer o ymatebwyr yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

> "bring the next asylum accommodation contract into Wales, preferably on a non-profit basis, by supporting a bid from one or more Welsh housing associations, other third sector organisations or local authorities."[117]

**128.** Roedd tystion yn cytuno â'r awgrym y dylai'r cyfrifoldeb dros ddyfarnu'r contract llety lloches, a'r gwaith o fonitro ansawdd y llety a ddarperir o dan y contract, gael eu datganoli.[118]

**129.** Awgrymodd tystion hefyd y dylai Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am fonitro ansawdd y llety.[119]

**130.** Nododd Clearsprings mewn llythyr at y Pwyllgor y byddai'n cysylltu â sefydliadau a nododd bryderon â ni. Cafodd y Pwyllgor wybod yn dilyn hynny gan Gynghrair Ffoaduriaid Cymru fod gwaith ymgysylltu cadarnhaol yn mynd rhagddo bellach gyda Clearsprings i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag ansawdd tai lloches yng Nghymru ac i wneud gwelliannau i'r gweithdrefnau cwyno.[120]

## Iechyd

**131.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) mai y cynharaf y caiff ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu hymgartrefu mewn gwlad gyda chymorth priodol, mae'n debygol mai'r gorau fydd eu hiechyd a'u lles. Gwnaethant dynnu sylw'r Pwyllgor at ddau ddarn o waith yn y maes hwn:

- Ym mis Tachwedd 2015, lluniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ganllaw cryno ar gyfer darparwyr gwasanaeth yng Nghymru o'r enw **Screening of New Entrants arriving via the Syrian Vulnerable Persons Relocation Scheme (SVPRS)**, ac
- Ym mis Ionawr 2016, lluniodd adran Ansawdd Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru **ganllaw i Bractisau Meddygol Cyffredinol (GMPs)**, sy'n rhoi cyngor ar fynediad i wasanaethau GMP gan ddarpar gleifion sy'n dymuno cofrestru ac sydd hefyd yn geiswyr lloches, neu'n geiswyr lloches aflwyddiannus neu'n ffoaduriaid.

**132.** Gwnaeth ICC roi sylw i ddogfen briff y Ganolfan Cydlynu Iechyd Rhyngwladol o'r enw '**Refugees and Asylum Seekers: Public Health implications for Wales**', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, a oedd yn canolbwyntio ar yr effaith mae'r argyfwng wedi'i chael yn y DU ac yng Nghymru.[121]

**133.** Dywedodd Faruk Ogut o Alltudion ar Waith wrth y Pwyllgor:

> "[when] asylum seekers [..] come to Cardiff as a dispersal area, not all of them go through a screening process. So, people are dispersed without going through the screening process in Cardiff. This has been an issue for a long, long time, and this issue should be dealt with effectively, because some people with really long-term illnesses are dispersed, or pregnant women are dispersed,

---

[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, **RAS 14**.
[118] Tystiolaeth lafar: Alicja Zalesinska (Tai Pawb), **11 Ionawr 2017**, paragraff 126; Shehla Khan (EYST), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 212; Roisin O'Hare (BIP AB), **15 Rhagfyr 2016**, paragraff 353.
[119] Tystiolaeth lafar, Hayley Richards (Oxfam), **7 Rhagfyr 2016**, paragraff 200.
[120] Gohebiaeth e-bost rhwng swyddogion, 8 Mawrth 2017.
[121] Tystiolaeth ysgrifenedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru, **RAS 36**.

without going through the screening with the Cardiff Health Access Practice."[122]

**134.** Cadarnhaodd Clearsprings Ready Homes Ltd i'r Pwyllgor nad oedd rheidrwydd cytundebol arnynt i sicrhau bod ceiswyr lloches yn eu llety yn cael profion sgrinio iechyd, ond mae'n rhaid iddynt gyfeirio pob person neu uned deuluol mewn Llety Cychwynnol (sydd yn Heol Casnewydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd) at Bractis Mynediad Iechyd Caerdydd (CHAP) sy'n trefnu i wneud y profion sgrinio iechyd cychwynnol.[123]

**135.** Dywedodd Robert Goodwill AS, Gweinidog Gwladol y DU dros Fewnfudo, wrth y Pwyllgor mai unigolion sy'n penderfynu a ydynt am fanteisio ar y gwasanaethau a gynigir iddynt, ond nad oedd camau uniongyrchol i helpu unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn dangos gofynion gofal iechyd amlwg neu frys.[124]

**136.** Clywodd y Pwyllgor fod iechyd meddwl yn her allweddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a bod diffyg cymorth i weithwyr proffesiynol i ymgysylltu â'u hanghenion penodol.[125]

**137.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod yr amser arweiniol yn bwysig i ddeall beth yw anghenion person, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn feddyliol, a sut y gallwn ddiffinio'r lleoliad cywir i'r person hwnnw. Dywedodd hefyd:

> "When we have some very specific cases that are very high need, some of those cases that you perhaps refer to may not be suitable for a placement in a very rural environment, because access to mental health services or to clinical services quickly is more pressured."[126]

**138.** Nododd BIP AB fod gan yr elusen Freedom from Torture ganolfannau rhanbarthol yn Glasgow, Llundain, Manceinion, Birmingham a Newcastle, sy'n rhoi cymorth unigol a grŵp i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi goroesi artaith a thrais wedi'i drefnu. Roeddent yn awgrymu y dylai canolfan ranbarthol gael ei sefydlu i weithwyr proffesiynol yng Nghymru.[127]

## Cyngor ac eiriolaeth

**139.** Roedd Asylum Justice ac Oxfam yn dadlau y dylai cyngor cyfreithiol gael ei ddarparu o'r diwrnod cyntaf gan ei fod yn fan cychwyn hanfodol i geiswyr lloches sy'n cyrraedd Cymru. Roedd y ddau sefydliad o'r farn bod diffyg cyngor cyfreithiol o safon ar gael i geiswyr lloches yng Nghymru a diffyg cyfreithwyr yn gallu cyflwyno ceisiadau adolygu barnwrol mewn materion sy'n gysylltiedig â lloches.[128]

**140.** Nododd Asylum Justice hefyd fod darparu cyngor o'r fath hyd yn oed yn fwy pwysig yng nghyd-destun y toriadau sylweddol i gyngor cyfreithiol a chymorth lloches dros yr wyth mlynedd diwethaf.[129] Dywedodd Oxfam na ddylai mynediad i gyngor cyfreithiol arbenigol ddibynnu ar le mae pobl wedi'u

---

[122] Tystiolaeth lafar, Faruk Ogut (Alltudion ar Waith), 11 Ionawr 2017, paragraff 227.
[123] Llythyr gan Clearsprings Ready Homes Ltd at Gadeirydd y Pwyllgor, 18 Ionawr 2017.
[124] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, 28 Chwefror 2017.
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.
[126] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraffau 144 a 145.
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, Bwrdd Iechyd Prifysgol AB, RAS 25.
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig, Asylum Justice, RAS 11.
[129] Tystiolaeth ysgrifenedig, Asylum Justice, RAS 11.

gwasgaru ar draws y DU, yn enwedig gyda chynnydd yn y dyfodol mewn ardaleodd gwasgaru yng Nghymru.[130]

**141.** Nododd City of Sanctuary er bod rhywfaint o gyngor 'symud ymlaen' arbenigol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'n gyfyngedig oherwydd capasiti ac nid oes unrhyw gyngor addysg a chyflogaeth arbenigol. Gwnaethant dynnu sylw at y Gwasanaeth Integreiddio a Chyflogaeth Ffoaduriaid blaenorol fel arfer da, a oedd yn cynnig mentora yn ogystal â chyngor. Nododd y rhwydwaith fod cynllun peilot yn mynd rhagddo hefyd rhwng UKVI a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Lloegr, sy'n darparu mynediad i ffoaduriaid i Gynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith i gyflymu'r broses 'symud ymlaen'. Roeddent o'r farn pe byddai'n llwyddiannus yn atal digartrefedd ac amddifadrwydd y byddent yn croesawu cyflwyno'r fenter hon yng Nghymru cyn gynted â phosibl.[131]

**142.** Clywodd y Pwyllgor fod ffoaduriaid yn agored iawn i fod yn ddigartref ac amddifadrwydd yn ystod y 28 diwrnod y mae'n rhaid iddynt symud allan o lety lloches, ac mae angen cyngor ar bobl ynghylch tai, cyflogaeth, budd-daliadau ac addysg yn gynnar er mwyn atal amddifadrwydd.

**143.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor, ym mis Chwefror 2017 fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract am Wasanaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr (RASM) am dair blynedd ledled Cymru, gwerth £1 miliwn.[132]

## Barn y Pwyllgor

**144.** Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n fawr o glywed y materion a nodwyd gan randdeiliaid, a'r dystiolaeth a ddaeth i'w law, ynghylch ansawdd llety lloches yng Nghymru a ddarperir gan Clearsprings Ready Homes Ltd. Croesawn ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i nodi'r materion hyn gyda'r Swyddfa Gartref.

**145.** Mae'r berthynas gymhleth rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn cysylltiad â llety lloches yn golygu bod perygl nad oes unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelu hawl ceiswyr lloches (a phawb arall) i gael safon byw ddigonol ar gyfer eu hiechyd a lles. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ddaeth i law y Pwyllgor fod y perygl hwn wedi dod yn realiti.

**146.** Mae'r Pwyllgor am i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref ac awdurdodau lleol fod yn gwbl glir ynghylch cyfrifoldebau pawb, a'r adnoddau sydd ar gael, i sicrhau safonau uchel o lety lloches yng Nghymru, a'u bod yn cyfleu'r ddealltwriaeth gyffredin honno â rhanddeiliaid eraill.

**147.** Hoffai'r Pwyllgor weld pob ceisiwr lloches yng Nghymru deimlo'n hyderus wrth nodi pryderon am ansawdd ei lety, gan wybod na fydd hynny mewn unrhyw ffordd yn andwyol i'w ceisiadau am loches, ac y bydd eu cwynion yn cael eu hystyried o ddifrif a'u datrys yn gyflym. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid gwella'r broses yn sylweddol pe bai proses gwynion annibynnol ar gael, gyda chofrestr ganolog o gwynion, yn hytrach na'r trefniadau lleol presennol a reolir gan Clearsprings, nad ydynt yn galluogi gwaith monitro cenedlaethol, ond sy'n rhoi'r argraff i geiswyr lloches fod y Swyddfa Gartref yn derbyn eu cwynion yn ogystal ag yn prosesu eu ceisiadau. Hoffai'r Pwyllgor weld hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff Clearsprings ar gydraddoldeb fel y gall ceiswyr lloches fod yn sicr bod y bobl sy'n gyfrifol am ddatrys eu cwynion yn deall eu hanghenion.

---

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru RAS 10.
[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[132] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor, 9 Chwefror 2017.

**148.** Mae'r gwaith ymgysylltu cadarnhaol rhwng Clearsprings a Chynghrair Ffoaduriaid Cymru a gynhaliwyd mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor yn gam cychwynnol i'w groesawu. Ond mae'n rhaid cynnal y momentwm hwn. Er mwyn helpu'r rhai sy'n ceisio lloches ar hyn o bryd, mae angen i bob partner, o'r Swyddfa Gartref a Clearsprings i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, gwrdd yn rheolaidd ac i ddarparu cymaint o ganllawiau â phosibl ynghylch sut y gellir gwneud cwynion a gweithredu arnynt.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r holl bartneriaid yn y broses llety lloches i adolygu gweithdrefnau cwynion, canllawiau arnynt a'r gwaith o'u lledaenu a monitro sut yr ymdrinnir ag achosion cwynion byw. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu hysbysebu'n briodol fel bod ceiswyr lloches a'r rhai sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o'r trafodaethau a'r canlyniadau a'u bod yn cymryd rhan yn y broses.

**149.** Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon rhanddeiliaid ynghylch y trefniadau cytundebol ar gyfer darparu llety lloches yng Nghymru. Rydym yn credu y dylai partneriaid cyflawni lleol gymryd mwy o ran wrth lunio a goruchwylio'r contract. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i wneud gwaith pellach ar p'un a ddylai tenantiaethau i geiswyr lloches fod yn rhan o'r cynllun cofrestru a gynhelir gan Rhentu Doeth Cymru.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau brys gyda'r Swyddfa Gartref i ddiwygio'r system llety lloches cyn y broses adnewyddu contract yn 2019. Dylai'r diwygiadau gynnwys:

- partneriaid cyflawni yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu, dyfarnu a monitro'r contract;
- proses cwynion annibynnol i geiswyr lloches yng Nghymru, gan gynnwys cofrestr ganolog o gwynion, gwaith monitro systematig o'r cynnydd yn eu datrys a chyfleu amserlenni i denantiaid; a
- hyfforddiant cydraddoldeb i staff contractwyr.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod landlordiaid ceiswyr lloches yn rhan o gynllun cofrestru, naill ai fel estyniad neu gyflenwad i Rhentu Doeth Cymru. Dylai'r cynllun gynnwys rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau manwl o eiddo sy'n cartrefu ceiswyr lloches ac adrodd yn rheolaidd ar safonau llety.

**150.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol newydd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ond mae'n bryderus na allai'r gyllideb gyfyngedig ateb y galw. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod y Gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i werthuso'n gadarn. Dylai'r Gwasanaeth gynnwys:

- cefnogaeth gryfach i weithwyr iechyd proffesiynol ddeall ac ymateb i anghenion iechyd meddwl ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- cyngor cyfreithiol; a
- chymorth ar gyfer sgrinio iechyd, yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, drwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr newydd, fod darpariaeth ddigonol o gyngor

cyfreithiol; gwybodaeth reolaidd i atgoffa am bwysigrwydd sgrinio iechyd yn ogystal â chymorth i bobl fynd i gael eu sgrinio; a chymorth iechyd meddwl, sy'n cael ei oruchwylio gan grŵp o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol 'Freedom From Torture'. Dylai fframwaith monitro a gwerthuso cadarn fod yn sail i'r Gwasanaeth.

# 05. Bywyd ar ôl y broses lloches

Clywodd y Pwyllgor fod ceiswyr lloches yn wynebu amryw o heriau unwaith y byddant yn cael canlyniadau eu ceisiadau. Ychydig iawn o hawliau cyfreithiol sydd gan y rhai aflwyddiannus ac maent mewn perygl o fod yn amddifad. Mae'n rhaid i'r rhai llwyddiannus oresgyn nifer o rwystrau cyn y gallant chwarae rhan lawn ym mywyd Cymru. Clywodd y Pwyllgor mai'r ymadrodd a ddefnyddir yn aml gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yw

"Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun."[133]

## Amddifadrwydd

**151.** Amddifadrwydd yw pan fydd person nad oes ganddo fynediad i arian cyhoeddus yn byw mewn tlodi eithafol ac yn methu â diwallu anghenion sylfaenol, er enghraifft incwm, bwyd, llety, gofal iechyd, ac sy'n aml yn cael ei orfodi i ddibynnu ar gymorth afreolaidd gan deulu, ffrindiau, elusennau neu weithio'n anghyfreithlon i oroesi.

**152.** Mae amddifadrwydd yn digwydd fel arfer pan fydd cais am loches rhywun wedi'i wrthod a bod disgwyl iddynt adael y DU. Nododd y Groes Goch Brydeinig nad oes gan geiswyr lloches amddifad aflwyddiannus unrhyw le i fyw a dim hawl i gael tai cyhoeddus, dim arian a dim mynediad i arian cyhoeddus na budd-daliadau a dim hawl cyfreithiol i weithio.[134] Dywedodd nad yw'r Cynllun Cyflawni presennol yn mynd i'r afael ag amddifadrwydd. Galwodd Cyngor Torfaen hyn yn fwlch anferthol mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru.[135]

**153.** Nid yw nifer y bobl amddifad yng Nghymru yn hysbys, ond mae nifer y bobl sydd wedi'u hatgyfeirio at y Groes Goch Brydeinig i gael cymorth amddifadedd yng Nghasnewydd a Chaerdydd wedi dyblu yn y blynyddoedd diweddar (o 564 achos yn 2013, i 1,027 yn 2015).

**154.** Roedd galwadau gan ymatebwyr i efelychu arfer da o Ogledd Iwerddon. Eglurodd Neil McKittrick, Rheolwr Cymorth Gweithrediadau yn y Groes Goch Brydeinig, fod cronfa argyfwng Gogledd Iwerddon yn darparu swm bychan o arian i'r rhai sydd â phroblemau gyda budd-daliadau, diweithdra, sydd wedi dioddef teulu'n chwalu neu drais domestig. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn cynnwys y rhai sydd heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, fel ceiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus, a mudwyr eraill sy'n agored i niwed gan gynnwys ffoaduriaid amddifad. Mae system olrhain yn casglu data ar ddefnyddwyr gwasanaeth i helpu i nodi tueddiadau a dylanwadu ar newidiadau polisi. Mae'r Groes Goch Brydeinig yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) fel y gellid ei defnyddio mewn ffordd debyg i gronfa argyfwng Gogledd Iwerddon.[136]

**155.** Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet oedd er ei fod yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i orfodi hawliau dynol pawb sy'n byw yng Nghymru, roedd o'r farn bod ceiswyr lloches aflwyddiannus sy'n profi amddifadedd yng Nghymru yn fater i Lywodraeth y DU.[137]

---

[133] Tystiolaeth lafar, Aled Edwards (Alltudion ar Waith), 11 Ionawr 2017, paragraff 284.
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Groes Goch Brydeinig, RAS 15.
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Torfaen, RAS 35.
[136] Tystiolaeth lafar, Neil McKittrick (y Groes Goch Brydeinig), 7 Rhagfyr 2016, paragraff 211.
[137] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 42.

**156.** O ran ymestyn meini prawf y DAF, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet er nad yw'r gronfa cymorth dewisol yn gymwys ar gyfer y broses hon, mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am gontract newydd ac wedi nodi bod y contract hwnnw yn edrych ar sut y gallai drafod rhai materion amddifadrwydd.[138]

## Y cyfnod symud ymlaen

**157.** Amlygodd tystiolaeth gan wasanaethau cyngor ac eiriolaeth fod pobl mewn angen blaenoriaeth, fel ffoaduriaid newydd, yn treulio cyfnodau helaeth mewn llety dros dro ac sy'n aml yn anaddas neu'n anniogel. Yn gyffredinol ni all pobl yr ystyrir nad ydynt mewn angen blaenoriaeth gael mynediad i dai rhent preifat, oherwydd y gofyniad i dalu ffioedd asiantaeth, rhent un neu ddau fis ymlaen llaw, yr angen am warantwr ac oedi hir wrth brosesu benthyciadau integreiddio. Pan fo swyddogion tai pwrpasol yn bodoli, sydd â phrofiad a dealltwriaeth o anghenion ffoaduriaid (er enghraifft yn Abertawe), mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu bod canlyniadau tai yn llawer gwell i ffoaduriaid.[139]

**158.** Galwodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru a Tai Pawb ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i ystyried pob ffoadur newydd fel rhai sy'n agored i niwed fel y cânt eu hystyried mewn angen blaenoriaeth am dai. Er enghraifft, yn Abertawe, caiff ffoaduriaid yn aml eu nodi fel rhan o 'grŵp sy'n agored i niwed' ac felly cânt eu rhoi ar y rhestr tai blaenoriaeth, ond nid dyma'r achos mewn ardaloedd eraill.[140]

**159.** Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i helpu i sicrhau llety i bob ymgeisydd a asesir yn ddi-waith am gyfnod o 56 diwrnod. Soniodd rhanddeiliaid fod y rhai sydd â statws ffoadur ond â 28 diwrnod i sicrhau llety, ac awgrymwyd y dylid ymestyn y cyfnod hwn i 56 diwrnod er mwyn iddo fod yn unol â'r ddyletswydd digartrefedd.

**160.** Hysbysodd y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo y Pwyllgor fod y Swyddfa Gartref a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio i sicrhau bod ffoaduriaid sydd newydd eu cydnabod yn gwneud cais yn brydlon am unrhyw fudd-daliadau lles y gallent fod yn gymwys i'w cael a'u bod yn cael y taliad cyntaf o unrhyw fudd-dal y maent yn gymwys i'w gael cyn i'w cymorth gan y Swyddfa Gartref ddod i ben. Dywedodd y dylid gwerthuso'r gwaith hwn ac y byddai'r cyfnod o 28 diwrnod yn newid os yw'r gwerthusiad yn dangos bod angen gwneud hynny.[141]

## Cyflogaeth

**161.** Yn gyffredinol, ni chaniateir i geiswyr lloches weithio tra byddant yn aros am ganlyniad eu cais. Gallant ond wneud cais am ganiatâd i gymryd swyddi ar restr galwedigaethol prinder swyddogol y DU os:

– ydynt wedi aros am dros 12 mis am benderfyniad cychwynnol ar eu cais lloches; ac

– na ystyrir mai nhw sy'n gyfrifol am yr oedi yn y broses gwneud penderfyniadau.

[138] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 85.
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, RAS 09.
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, Tai Pawb, RAS 17.
[141] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, 28 Chwefror 2017.

**162.** Dywedodd City of Sanctuary wrth y Pwyllgor fod ffoaduriaid yn wynebu amryw rwystrau i gyflogaeth nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni, gan gynnwys bod yn anghyfarwydd â system y DU a'r broses gwneud cais gymhleth, dryswch dros hawliau a diffyg profiad gwaith yn y DU.[142]

**163.** Nododd Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac EYST bryderon fod y rhwystrau i gyflogaeth a wynebir gan ffoaduriaid yn cael eu gwneud yn waeth gan asiantaethau fel y Ganolfan Byd Gwaith, gan eu bod yn pwysleisio symud pobl i mewn i'r gwaith waeth beth fo'u profiad neu gymwysterau. Clywodd y Pwyllgor nad yw asiantaethau o'r fath yn edrych y tu hwnt i sgiliau Saesneg, yn ogystal â diystyru sgiliau, profiad a chymwysterau a gafwyd dramor.[143]

**164.** Nododd y CLILC:

> "more emphasis should be placed on the 'assets' of refugees and migrants, e.g. (highly) skilled refugees and migrants who are eager to contribute to Welsh society, for example, the Certification and Qualification Framework Wales should be better promoted, coordinated and resourced to enable refugees to have their skills and qualifications recognised to Welsh/UK standards."[144]

**165.** Dywedodd y CLILC wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar lefel eu cyflogadwyedd ac incwm, eu hiechyd a'u hymdeimlad o berthyn, ac y byddai'n lleihau'r lefel o dlodi a brofwyd gan nifer o ffoaduriaid.[145]

**166.** Nododd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru:

> "the Credit and Qualifications Framework for Wales (CQFW) [..] enable[s] sanctuary seekers to have prior learning recognised and limit[s] the need to repeat training and education unnecessarily."

**167.** Gwnaethant nodi nad yw rhai colegau yn ymwybodol o CQFW a bod diffyg gwaith dilynol cyson ac adnoddau i sicrhau bod CQFW yn parhau i fod ar gael yn golygu nad yw'n bodoli mewn gwirionedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches nawr. [146]

**168.** Nododd rhai tystion, gan gynnwys City of Sanctuary, hefyd yr angen am wasanaeth cyflogaeth ac addysg arbenigol i sicrhau bod sgiliau a phrofiad blaenorol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu cydnabod a'u defnyddio.[147]

**169.** Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cymorth systematig i drosglwyddo a chydnabod cymwysterau, yn ogystal â gwaith gyda busnesau a diwydiant i greu rhaglenni hyfforddiant ac interniaeth sy'n gwneud y gorau o sgiliau ffoaduriaid. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod maes gweithredu 6 yn y Cynllun Cyflawni yn ceisio sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi'u hymrymuso i ddefnyddio eu sgiliau a gwybodaeth i wireddu eu llawn botensial fel aelodau o gymdeithas Cymru.[148]

---

[142] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[143] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, RAS 09.
[144] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, RAS 32.
[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, RAS 32.
[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.

**170.** Nododd PHW:

> "it may be opportune to consider how public sector bodies can create openings and opportunities to proactively support people in terms of volunteering opportunities, work experience, apprenticeships etc so that individuals can gain the necessary experience and confidence which may enhance their knowledge, life skills and employability."[149]

**171.** Gwnaeth tystiolaeth City of Sanctuary hefyd bwysleisio pa mor bwysig yw cyfleoedd gwirfoddoli i geiswyr lloches a ffoaduriaid ond nododd amryw o rwystrau i wneud hynny. Roedd y rhwystrau yn cynnwys dryswch dros hawliau ac amodau gwirfoddoli i geiswyr lloches.[150]

## Mynediad i addysg uwch

**172.** Nododd tystion y rhwystrau i addysg uwch ar gyfer ffoaduriaid. Dywedodd Dr Mike Chick wrth y Pwyllgor fod ceiswyr lloches yn dal i gael eu trin fel myfyrwyr rhyngwladol ac felly cânt eu hatal rhag mynd i brifysgol oherwydd y baich ariannol ac na allant gael arian ar gyfer yr hyn a elwir yn 'gyrsiau iaith cyn-sesiynol'. Galwodd am i geiswyr lloches gael eu trin fel myfyrwyr cartref,[151] a chyfeiriodd at honiad Cynghrair Ffoaduriaid Cymru sef:

> "NARIC (national agency for the recognition and comparison of international qualifications and skills) cost is an additional barrier, which asylum-seekers most often cannot afford, effectively costing up to two weeks of income or thereabouts, and constituting a further discriminatory barrier to HE."[152]

**173.** Ers 2002, mae Deoniaeth Cymru wedi rhedeg cynllun Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru (WARD), sy'n mynd i'r afael ag anghenion addysg a hyfforddiant meddygon ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru drwy eu helpu i basio'r profion iaith sy'n ofynnol i weithio yn y GIG. Darperir canolfan galw heibio mewn partneriaeth ag Alltudion ar Waith sy'n cynnwys cyfnodolion meddygol, mynediad i'r we a chyfleusterau eraill. Awgrymodd Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch y dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i roi caniatâd i bobl sydd wedi cwblhau'r cynllun i aros.[153]

## Barn y Pwyllgor

**174.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch y risg o amddifadrwydd i bobl y gwrthodir eu ceisiadau am loches, yn ogystal â'r rhai y mae eu ceisiadau yn dal i gael eu prosesu. Nid yw'r ffaith mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol yn y pen draw am fewnfudo yn anwybyddu'r ddyletswydd foesol sydd ar Lywodraeth Cymru i helpu pobl yng Nghymru sydd mewn angen dybryd. Er y byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ynghylch effaith penderfyniadau ar faterion a gadwyd yn ôl ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig, rydym hefyd am weld camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i liniaru'r effeithiau hyn.

**175.** Rydym yn credu y byddai rhoi symiau bach o arian, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, i geiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus sy'n amddifad nid yn unig yn eu diogelu pan fyddant fwyaf

---

[149] Tystiolaeth ysgrifenedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru, RAS 36.
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, City of Sanctuary, RAS 21.
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, Prifysgol De Cymru, RAS 45.
[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, RAS 14.
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch, RAS 04.

agored i niwed, ac yn helpu i atal anawsterau mwy yn y dyfodol, ond hefyd yn galluogi rhywfaint o waith olrhain lleoliadau unigolion a chanlyniadau yn dilyn y broses lloches.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys camau penodol i helpu ceiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus i osgoi amddifadedd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches diwygiedig, gan gynnwys creu cronfa grantiau bach i geiswyr lloches a phobl nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol.

**176.** Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau y gall pobl sy'n llwyddiannus wrth hawlio lloches ac yn dewis ymgartrefu yng Nghymru wneud hynny yn llwyddiannus. I'r perwyl hwnnw, mae'r Pwyllgor yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai ffoaduriaid newydd yr ystyrir eu bod yn agored i niwed gael eu hasesu gan pob awdurdod lleol fel petaent mewn angen blaenoriaeth am dai, fel sy'n digwydd yn aml yn Abertawe.

**177.** Rydym yn sicr am weld y cyfnod symud ymlaen o 28 diwrnod i gael ei ymestyn i 56 diwrnod yn unol â'r gyfraith dai yng Nghymru, i helpu i leihau'r risg o ddigartrefedd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu pobl sydd â statws ffoaduriaid i ddod o hyd i lety addas yng Nghymru. Dylai sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pryd y bydd ceiswyr lloches yn eu hardal yn cael statws ffoaduriaid, a gofyn i awdurdodau lleol ystyried p'un a yw'r ffoadur newydd yn agored i niwed ac felly eu bod mewn angen blaenoriaeth am gartref ynghyd â grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref ynghylch ymestyn y cyfnod symud ymlaen 28 diwrnod i 56 diwrnod.

**178.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfraniad y mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei wneud i economi Cymru a chymdeithas Cymru, ond mae'n pryderu bod llawer iawn o botensial heb ei gyffwrdd yn sgil rhwystrau i sicrhau cyflogaeth. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor mai un her allweddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yw sicrhau bod eu dysg a sgiliau blaenorol yn cael eu cydnabod yn y DU. Mae'r CFQW yn adnodd allweddol i sicrhau'r gydnabyddiaeth honno, ac roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg colegau addysg bellach.

**179.** Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai addysg uwch fod ar gael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar yr un sail â myfyrwyr cartref.

**180.** Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi gweld rhagor o gyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches wirfoddoli, ac mae'n credu y byddai hyn yn gwneud y gorau o gyfraniad economaidd a chymdeithasol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ogystal â chael effeithiau cadarnhaol ar les unigolion.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael mynediad at addysg a chyflogaeth drwy:

- hyrwyddo Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru mor eang ag y bo modd, i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau;
- ei gwneud yn ofynnol bod prifysgolion Cymru yn trin ffoaduriaid fel myfyrwyr cartref; a
- chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer interniaethau sector cyhoeddus a chyfleoedd gwirfoddoli wedi'u cynllunio ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

# 06. Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC)

Caiff plant ar eu pen eu hunain eu trin yn wahanol yn y system loches, a'r SVPRP. Clywodd y Pwyllgor fod y plant hyn, sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu rhieni a pherthnasau, yn parhau i fod ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed o blant yng Nghymru, yn aml mewn mwy o berygl o ddioddef camfanteisio, cam-drin, trais yn seiliedig ar ryw a masnachu pobl.[154]

**181.** Mae plant a theuluoedd sy'n ceisio lloches yn profi nifer o rwystrau, ac yn aml yn dibynnu ar brosiectau yn y trydydd sector a phrosiectau cymunedol sy'n gweithio'n ddiflino i helpu teuluoedd sy'n agored iawn i niwed ac sydd wedi defnyddio trawma gyda materion cyfreithiol, lles, llety, iechyd ac ariannol. Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sydd ar wahân yn arbennig o agored i niwed ac mewn perygl o ddioddef camfanteisio, cam-drin a masnachu mewn pobl.[155]

**182.** Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gyfres o argymhellion ym mis Mehefin 2016 mewn cysylltiad â phlant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a phlant mudol. Roedd yr argymhellion hyn yn adlewyrchu nifer o bryderon a roddwyd gan gynghreiriau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth fel rhan o'r broses fonitro, a oedd yn cynnwys:

- diffyg data dibynadwy ar blant sy'n ceisio lloches;
- diffyg mynediad at warcheidwaid annibynnol;
- natur broblematig y broses 'asesu oedran';
- diffyg mynediad at wasanaethau sylfaenol; a
- risg uchel o amddifadrwydd.[156]

**183.** Honnodd Hawliau fod y niferoedd yn cynyddu a disgrifiodd effeithiau hyn fel a ganlyn:

> "…when Welsh Local Authorities had small numbers of asylum seeking children they were able to provide positive and humanitarian solutions in their practice and would often give younger people the benefit of the doubt in terms of accommodation and support. As numbers have increased this unfunded mandate has often led to a hardening of attitude and reduced support. This in my view means that children are not getting the protection they deserve and legally entitled to."[157]

**184.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod tua 27 UASC yng Nghymru,[158] ac mewn gohebiaeth ddilynol eglurodd mai cipolwg oedd hyn, yn deillio o nifer o ffynonellau yn ymwneud â'r cyfnod yn dilyn cau gwersyll "Jungle" Calais ac yn cwmpasu dyfodiaid drwy nifer o lwybrau. Dywedodd nad oedd yr holl blant hynny wedi ymsefydlu neu y byddent yn ymsefydlu yng Nghymru, oherwydd y byddai rhai yn symud i rannau eraill o'r DU i gael eu haduno â'u teuluoedd. Pwysleisiodd Ysgrifennydd

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, RAS 20.
[155] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, RAS 20.
[156] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, RAS 20.
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hawliau, RAS 23.
[158] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 113.

y Cabinet fod nifer yr UASC yng Nghymru yn newid yn gyson, a datgelodd fod gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu a chynnal system casglu ac adrodd data.[159]

**185.** Pan gafodd ei herio gan y Pwyllgor ynghylch y nifer isel iawn honedig o UASC yng Nghymru, honnodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r rheswm dros hyn oedd y dyraniadau a wnaed gan y Swyddfa Gartref: "It's not that at this end we're being restrictive. It's just that there's nothing coming through the system".[160]

**186.** Dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo fod Llywodraeth y DU yn awyddus iawn i weld dosbarthiad mwy cyfartal o UASC ar draws pob rhan o'r DU ac eglurodd fod y nifer isel presennol yng Nghymru yn rhannol oherwydd trefniadau'r Cynllun Trosglwyddo cyn-Genedlaethol lle roedd lleoliadau yn cael eu diffinio'n benodol gan y lleoliad lle cafodd UASC eu nodi neu y daeth rhywun ar eu traws yn gyntaf.[161]

## Gwarcheidiaeth

**187.** Galwodd nifer sylweddol o dystion am i Lywodraeth Cymru sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth. Mae gwarcheidiaeth yn wahanol i eiriolaeth gan ei fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, yn ôl Plant yng Nghymru.

**188.** Nododd ymatebwyr, er gwaetha'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn eu Harsylwadau Terfynol yn 2002 a 2008, mae Cymru yn parhau i fod heb wasanaeth gwarcheidiaeth annibynnol cenedlaethol arbenigol statudol.[162]

**189.** Nododd Plant yng Nghymru fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiadau yn flaenorol i edrych ar y posibilrwydd am wasanaeth o'r fath (yn Strategaeth Cynhwysiant Ffoaduriaid 2008 a'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y Cynllun Cyflawni presennol), ond nad oedd y gwaith wedi datblygu.[163]

**190.** **Dywedodd** Llywodraeth yr Alban wrth y Pwyllgor fod Deddf Masnachu a Chamfanteisio Pobl (yr Alban) yn sicrhau bod pob plentyn sy'n cyrraedd yr Alban ar ben ei hun ac wedi'i wahanu o'i deulu â hawl gyfreithiol i gael 'Gwarchediwad' annibynnol i'w cynghori a'u helpu. Mae'n costio £200,000 y flwyddyn i gefnogi 200 o blant. Canfu **dadansoddiad cost/budd** Unicef o gynlluniau gwarcheidiaeth, am bob £1 a gaiff ei wario, gellid arbed rhwng £1.25 a £2.39.

**191.** Pwysleisiodd y CLILC fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pwysleisio pa mor bwysig yw eiriolaeth. Nododd:

> "every local authority across Wales has arrangements in place to provide statutory advocacy to children and young people and work is currently underway to implement a national approach to the provision of statutory advocacy to help improve access and consistency. As with any other entitled child or young person an UASC should be entitled to advocacy."[164]

**192.** Dywedodd Asylum Justice wrth y Pwyllgor fod y prif ddarparwr o wasanaethau eiriolaeth annibynnol – y prosiect 'Fair and Square' a redwyd gan Tros Gynnal Plant – wedi dod i ben ym mis

---

159 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor, **9 Chwefror 2017**.
160 Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, **19 Ionawr 2017**, paragraff 115.
161 Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, **28 Chwefror 2017**.
162 Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, **RAS 20**.
163 Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, **RAS 20**.
164 Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC, **RAS 32**.

Chwefror 2016. Y prosiect hwn oedd y prif ddarparwr oedolion annibynnol ar gyfer asesiadau oed awdurdodau lleol, a heb y gwasanaeth hwn, byddai amrywiaeth o bobl amhriodol wedi'u cael eu defnyddio yn eu lle - gan gynnwys staff llety'r Swyddfa Gartref.[165]

**193.** Nododd Aelodau'r Pwyllgor a siaradodd ag UASC yn ystod ymweliadau'r Pwyllgor pa mor bwysig yw cymorth cyfoedion, ynghyd â gwasanaeth eiriolaeth, i helpu plant i ymsefydlu yng Nghymru.

**194.** Hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor y byddai Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol sy'n eu gwneud yn ofynnol i hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a chymorth.[166]

**195.** Ymhelaethodd ar y galwadau am Wasanaeth Gwarcheidiaeth:

> "We're conscious of the Scottish guardianship scheme. Two elements of this: we've got the advocacy programme [..]
>
> Also, we are one of the test areas for the independent child trafficking advocates [ICTA] service, which is funded by the Home Office, which does some very similar work. It's not directly related to unaccompanied asylum seekers.
>
> [..] we're just seeing how that pans out, really—whether those two pieces of work with the advocacy service and the ICTA work closely enough together that we don't need a guardianship scheme. It's something that I haven't written off, but it's something that I'll give further consideration to as we move forward. It's understanding whether what we've got is working or not."[167]

**196.** Mae'r Cod Ymarfer ar ran 10 o Ddeddf 2014 yn pennu'r amgylchiadau lle gallai unigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fod angen gwasanaeth eiriolaeth a phryd y mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu eiriolaeth. Nid yw'n sôn yn benodol am blant sy'n ceisio am loches.

**197.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, hyd nes mis Ebrill 2016, roedd Tros Gynnal yn gweithredu prosiect eiriolaeth ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches sy'n byw yng Nghymru. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod ym mis Tachwedd 2015 y byddai'r arian ar gyfer y prosiect hwn yn dod i ben ond eglurodd fod arian i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches eisoes wedi'i ymrwymo o dan y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant tan fis Ebrill 2017.[168]

**198.** O ran y bwlch mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr angen am eiriolaeth ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ym manyleb y contract ar gyfer y gwasanaeth eiriolaeth a chyngor newydd i ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr, i'w lansio ym mis Ebrill 2017.[169]

---

[165] Tystiolaeth ysgrifenedig, Asylum Justice, RAS 11.
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, RAS 47.
[167] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 160.
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, RAS 47.
[169] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, RAS 47.

**199.** Er mwyn helpu awdurdodau lleol i adsefydlu plant ar eu pen eu hunain yn benodol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi:

- creu dull byrdymor er mwyn cynyddu capasiti gofal cymdeithasol;
- cytunwyd ar £350,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull rhanbarthol o gynyddu capasiti gofal cymdeithasol er mwyn helpu i integreiddio plant ar eu pen eu hunain o fewn cymunedau yng Nghymru. Bydd hyn yn ategu'r broses barhaus o nodi lleoliadau, gwella gwybodaeth ac arbenigedd gwaith cymdeithasol, hyrwyddo'r broses o recriwtio a hyfforddi gofalwyr maeth a hyrwyddo'r ddealltwriaeth o anghenion ieithyddol a diwylliannol; a
- sefydlu is-grŵp plant o'r Tasglu Ffoaduriaid i ategu'r gwaith o gydgysylltu'r cynlluniau hyn ar draws gwasanaethau cymdeithasol.[170]

## Asesiadau oed

**200.** Pan fydd UASC yn cyrraedd ac yn hawlio lloches yn y DU, nid oes gan lawer unrhyw brawf dogfennol o'u hoed, neu nid yw'r dogfennau sydd ganddynt yn ddibynadwy. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i awdurdodau mewnfudo benderfynu p'un a yw'r person ifanc yn 18 oed neu beidio fel y gallant, os ydynt yn gymwys, fod yn atebol i ddiogelwch ychwanegol i blant sy'n rhan o'r broses loches. Eglurodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod yr asesiadau oed hyn:

> "have far-reaching consequences in terms of the asylum process, welfare provision, child protection and the young person's sense of identity and mental health."[171]

**201.** Roedd canfyddiad nad oedd digon o hyfforddiant ar gael i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru i gynnal asesiadau oed. Galwodd Siân Summers-Rees o City of Sanctuary a thystion eraill am gael person dynodedig ym mhob awdurdod lleol i gynnal asesiadau. Clywodd y Pwyllgor y gallai cynnal asesiadau cywir leihau costau adolygu barnwrol i awdurdodau lleol pan gaiff penderfyniadau eu gwrthdroi.[172]

**202.** Nid yw canllawiau'r WSMP ar asesiadau oed yn cynnwys unrhyw drefniadau monitro. Dywedodd Cheryl Martin, Swyddog Datblygu Tlodi Plant yn Plant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor ei bod yn gwbl afrealistig i ddisgwyl i weithwyr cymdeithasol ddarllen a deall 84 o dudalennau o ganllawiau i gynnal asesiadau effeithiol.[173] Roedd Dr Gill Richardson o BIP AB o'r farn na ddylai dulliau a ddefnyddir i asesu oedran gael eu defnyddio i bennu cymhwysedd i gael cymorth. Dywedodd nad oedd canllawiau'r WSMP wedi'u dilysu yn ôl iechyd ac nad oedd ganddynt unrhyw gyfraniad gan baediatregwyr.[174]

**203.** Nododd Oxfam bryderon ynghylch y broses asesu oed a materion diogelwch i bobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses hon. Honnodd Oxfam:

> "It is totally unacceptable, for example, for young people in age dispute cases to by housed in initial accommodation at Lynx House, a practice that has

[170] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, RAS 47.
[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, RCPCH, RAS 07.
[172] Tystiolaeth lafar, Siân Summers-Rees, 7 Rhagfyr 2016, paragraff 140.
[173] Tystiolaeth lafar, Cheryl Martin (Plant yng Nghymru), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 242.
[174] Tystiolaeth lafar, Dr Gill Richardson (BIP AB), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 416.

occurred. In accepting UASC from Calais, this was at risk of occurring again; however Cardiff Council acted fast to find alternative accommodation."[175]

## Iechyd meddwl plant

**204.** Amlygodd yr Athro Bill Yule o Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) y trawma a brofwyd gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "Those of us who do assess these kids for legal purposes have always assumed that many of them—boys, as well as girls—have been sexually assaulted, but it's far too sensitive to raise in an initial meeting. The House of Lords quote a Save the Children paper, a study of a group of such children, where 50 per cent were found to have sexually transmitted diseases."[176]

**205.** Galwodd y BPS am i'r llywodraeth, seicolegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i gydweithio i gynnal y rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'u rhwymedigaethau dyngarol i sicrhau diogelwch a diddordebau gorau pob plentyn ar ei ben ei hun sy'n cyrraedd yn y DU. Maent yn argymell fod angen y canlynol ar y grŵp hwn sy'n agored i niwed:

- asesiad cyfannol a phrydlon o'u hanghenion lles a meddygol cyffredinol, seicolegol, lles ac addysgol;
- asesiadau seicolegol o fregusrwydd (gan gynnwys risg o niwed pellach neu gamfanteisio) ac effaith amrywiaeth o brofiadau gan gynnwys colled (gan gynnwys rhieni neu aelodau eraill o'r teulu), trais, cam-drin neu gamfanteisio;
- asesiadau amlddisgyblaethol mewn achosion lle mae oed plant yn destun dadl yn y broses pennu lloches gyfreithiol;
- cymorth effeithiol i unrhyw deuluoedd sy'n helpu'r plant;
- hyfforddiant digonol a chymorth parhaus i ofalwyr maeth a staff mewn lleoliadau preswyl sy'n cynnal plant ar eu pen eu hunain;
- hyfforddiant digonol a phrydlon i staff iechyd a gofal cymdeithasol ac athrawon sy'n gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain; a
- hyfforddiant digonol ar gyfer comisiynwyr gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod systemau digonol ar waith i ganiatáu mynediad prydlon i systemau cymdeithasol, iechyd ac addysgol.[177]

## Barn y Pwyllgor

**206.** Roedd y Pwyllgor yn synnu o glywed y nifer isel o blant ar eu pen eu hunain sy'n cyrraedd Cymru, ac nid oedd yn gallu canfod p'un a oedd hyn oherwydd diffyg capasiti a gallu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, neu amharodrwydd ar ran y Swyddfa Gartref i anfon mwy o blant i Gymru. Ar ôl i'r Pwyllgor orffen casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn rhoi cap ar 350 o blant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain a ganiateir i'r DU o dan yr hyn a elwir yn "welliant Dubs" ac awgrymodd CLILC yn y cyfryngau fod trafodaethau a'r

[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam, RAS 10.
[176] Tystiolaeth lafar, yr Athro Bill Yule (BPS), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 381.
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, BPS, RAS 03.

Swyddfa Gartref wedi dod i ben bellach (er ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at y Pwyllgor gan ddweud bod Llywodraeth y DU yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol).[178] Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Cymru groesawu mwy o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn y dyfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth wrth sicrhau bod hyn yn parhau.

**207.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi gwasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau eraill ar waith i helpu plant sy'n ceisio lloches sydd ar ben eu hunain. Fodd bynnag, mae'r rhain, yn eu hanfod, yn wasanaethau adweithiol nad ydynt yn adlewyrchu sefyllfa fregus plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches a'u hanghenion penodol. Mae'n amlwg y dylai pob plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches gael person dynodedig, neu warcheidwad, sy'n gyfrifol am ei helpu. Mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn ogystal â'r Cenhedloedd Unedig wedi argymell hyn yn gryf i'r Pwyllgor, ac mae'r dystiolaeth o'r Alban yn awgrymu y byddai hyn yn arbed arian cyhoeddus o ran lleihau pwysau ar wasanaethau eraill. Mae'r Pwyllgor yn argyhoeddedig y dylai Llywodraeth Cymru fynd y tu hwnt i'w ymrwymiad gwreiddiol i archwilio hyn ymhellach, ac i ymrwymo i sefydlu gwasanaeth gwarcheidiaeth i Gymru.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth gwarcheidiaeth i Gymru, gyda chymorth rhwydweithiau cyfoedion, fel rhan o'r broses o ailddatgan ymrwymiad Cymru i groesawu plant sy'n ceisio lloches sydd ar ben eu hunain.

**208.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag asesiadau oed, yn ogystal â'r egwyddor sylfaenol y dylai unigolyn gael y cymorth sydd ei angen arno waeth beth fo'i oedran. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn parhau i fod yn bwysig i ganfod oed ceisiwr lloches ac felly statws cyfreithiol er mwyn gallu darparu gwasanaethau priodol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y gallai trefniadau amrywio mewn rhannau gwahanol o Gymru, a'i fod yn fater i bartneriaid lleol.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod person dynodedig ac wedi'i hyfforddi'n briodol fod ar gael ym mhob awdurdod lleol i gynnal asesiadau oedran plant sy'n ceisio lloches.

**209.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth pwerus gan yr Athro Bill Yule ynghylch y trawma seicolegol a brofir gan blant sy'n ffoaduriaid, ac achosion hynny. Rhaid i anghenion dwys y plant hyn gael eu diwallu gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ac o safon uchel.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau safonau gofynnol cymorth iechyd meddwl i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches gyda thrawma, yn unol ag argymhellion Cymdeithas Seicolegol Prydain.

---

[178] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo at Gadeirydd y Pwyllgor, 28 Chwefror 2017.

## Saith Cam i Noddfa

O maniffesto Clymblaid Ffoaduriaid Cymru.

**1. CYMRU GROESAWGAR**

Cynnal ymrwymiad Cymru i groesawu ffoaduriaid a chefnogi Cymru i ddod yn Genedl Noddfa gyntaf y byd.

**2. DATBLYGU STRATEGAETH YMFUDO GENEDLAETHOL**

Datblygu safonau cenedlaethol uchel ar gyfer integreiddio pobl sydd wedi cael eu hailsefydlu yng Nghymru, gan gydnabod a bachu'r cyfleoedd a gyflwynir gan ymfudo i Gymru ac ymateb yn effeithiol i heriau.

**3. DYLANWADU AC YMGYSYLLTU YN GADARNHAOL GYDA LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG**

Deddfwriaeth ymfudo a chreu strategaethau effeithiol a rhagataliol i reoli effaith deddfwriaeth mewnfudo newydd i liniaru'r peryglon i hawliau dynol a diogelwch ymfudwyr yng Nghymru.

**4. DATGANOLI CYMORTH LLOCHES**

Gwthio am system cymorth lloches wedi'i ddatganoli, gan gynnwys llety lloches a gwasgaru yng Nghymru.

**5. RHOI DIWEDD AR AMDDIFADEDD YNG NGHYMRU**

Atal amddifadedd ymysg ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

**6. ARIANNU GWASANAETHAU CYNGOR, EIRIOLAETH A CHYMORTH ARBENIGOL**

Amddiffyn y ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid.

**7. CYNNWYS CEISWYR LLOCHES A FFOADURIAID YN Y GWAITH O DDATBLYGU POLISÏAU SY'N EFFEITHIO ARNYNT**

Hyrwyddo cyfranogiad gweithredol ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn y polisïau sy'n effeithio arnynt.

# 07. Cenedl Noddfa?

Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol iawn o'r syniad y dylai Cymru fod yn Genedl Noddfa.

**210.** Gweithiodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru gyda thros 20 o sefydliadau i **gyhoeddi maniffesto** yn nodi "Saith Cam i Noddfa" cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Mae'r Gynghrair yn disgrifio'r Saith Cam fel y prif gamau gwleidyddol y mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo iddynt er mwyn ymrwymo a chyflawni i greu Cenedl Noddfa. Mae'r Gynghrair yn honni bod y gwaith hwn wedi cael peth dylanwad ar y maniffesto o bum plaid wleidyddol yng Nghymru ac yn darparu sylfaen gref i sicrhau bod hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu cydnabod yn y rhaglen lywodraethu nesaf.

**211.** Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at eu hymrwymiad i'r Saith Cam, gan gynnwys:

- Cyngor Ffoaduriaid Cymru;[179]
- City of Sanctuary;[180]
- Alltudion ar Waith;[181]
- Trefnu Cymunedol Cymru;[182]
- Cyngor Wrecsam;[183] ac
- Oxfam.[184]

**212.** Dywedodd City of Sanctuary wrth y Pwyllgor ei fod yn ariannu prosiect Cymru Dinas Noddfa, sydd wedi'i gydlynu gan Alltudion ar Waith a'i ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r prosiect hwn yn gweithio'n bennaf yn Abertawe a Chaerdydd, sydd â'r poblogaethau mwyaf o geiswyr lloches gwasgaredig. Mae hefyd yn ceisio lledaenu gweledigaeth City of Sanctuary ledled Cymru, gyda'r nod o fod Cymru yn dod yn 'Genedl Noddfa'. Galwodd City of Sanctuary am i Lywodraeth Cymru weithio'n rhagweithiol i gefnogi'r mudiad City of Sanctuary i adeiladu diwylliant o groeso a lletygarwch ar draws pob agwedd ar gymdeithas yng Nghymru.[185]

**213.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei fod yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, dywedodd mai'r broblem yw'r manylion gan fod rhai o'r swyddogaethau hyn heb eu datganoli. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet yr ymrwymiad pe byddai unrhyw ffordd y gallant gymryd y camau hynny a chael y statws, yna fe fyddai'n hapus.[186]

## Barn y Pwyllgor

**214.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod gan nad yw lloches a mewnfudo wedi'u datganoli, nid oes gan Lywodraeth Cymru o reidrwydd yr holl bolisïau a dulliau deddfwriaethol i gynnig lloches unochrol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn credu, ac mae'r Pwyllgor yn cytuno, y gall Cymru ddod

---

[179] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, RAS 09.
[180] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, RAS 20.
[181] Tystiolaeth ysgrifenedig, Alltudion ar Waith, RAS 46.
[182] Tystiolaeth ysgrifenedig, Trefnu Cymunedol Cymru, RAS 18.
[183] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Wrecsam, RAS 44.
[184] Tystiolaeth ysgrifenedig, Oxfam Cymru, RAS 10.
[185] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, RAS 20.
[186] Tystiolaeth lafar, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, 19 Ionawr 2017, paragraff 185.

yn Noddfa drwy gymryd camau gweithredu sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn derbyn yr egwyddor honno. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor fod y sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu'r Saith Cam wedi cymryd gofal arbennig i'w geirio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr ymateb datganoledig i loches yn hytrach na'r polisi lloches ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y gofal hwn a'r sylw a chymryd y Saith Cam, gan weithio gyda phobl ledled Cymru i sicrhau ein bod yn dod yn Genedl Noddfa gyntaf y byd.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y Saith Cam i wneud Cymru yn Genedl Noddfa.

# Atodiad A – Astudiaethau achos

## Casnewydd

**215.** Rhoddodd Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch nifer o enghreifftiau o brosiectau maent wedi cymryd rhan ynddynt:

- Paint back (Cymunedau yn Gyntaf);
- Prosiect Bike (Dyffryn Link, Heddlu);
- Prosiect Rhandiroedd (Cronfa'r Degwm);
- adran 4 cyfnewid talebau bwyd mewn partneriaeth ag eglwysi;
- Partneriaeth Gofod Cymunedol (saith cymuned, gydag arian y Loteri Fawr);
- Gwasanaeth Cefnogi Lloches Ifanc a ddarperir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent; a
- Gweithgareddau Wythnos Ffoaduriaid rhwng 2002 a 2011.[187]

**216.** Dywedodd Roisin O'Hare o BIP Aneurin Bevan wrth y Pwyllgor, pan mae'n cwrdd â cheiswyr lloches sydd wedi cyrraedd Casnewydd, un o'r materion allweddol yw: "find out what their interests are, what their previous occupation was, to then, at the end, come to some sort of plan, a signposting plan, of where they can go to engage in the community in those areas… signposting them to the nearest ESOL classes… antenatal groups and midwifery… Mother and toddler groups… Also, there are ones specifically that are run for asylum seekers and refugees in the area. Sometimes that's a good stepping stone to getting them out of the house and then further engage with the community".[188]

## Sir Gaerfyrddin

**217.** Syria Sir Gâr, sef grŵp cymorth gwirfoddol a sefydlwyd i ddarparu cymorth anffurfiol i deuluoedd sy'n ffoaduriaid, yn fwy na'r hyn a ellir ei ddarparu drwy'r SVPRP. Mae'n caniatáu i aelodau o'r gymuned leol holi ynghylch sut mae'r cynllun yn gweithio ac i gael eu cwestiynau wedi'u hateb mewn lleoliad anffurfiol cymharol. Mae hefyd yn hysbysu pobl leol am sut i gymryd rhan yn helpu teuluoedd. Mae Syria Sir Gâr yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer y gymuned leol, lle y gwahoddir teuluoedd o Syria. Mae'n helpu i gyflwyno'r teulu i bobl leol, ac mae'n hwyl hefyd. Roedd gan y digwyddiad cymdeithasol diwethaf fantais ychwanegol, gan fod un grŵp lleol wedi penderfynu cynnig eu heiddo i'w rentu.[189]

**218.** Rhoddir cymorth hefyd gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) o dan gontract pum mlynedd a ddyfarnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae dau aelod o staff profiadol ac ymroddedig yn darparu'r cymorth o ddydd i ddydd. Mae hyn yn dechrau cyn i'r teulu gyrraedd, drwy sicrhau bod plant wedi cofrestru ymlaen llaw gydag ysgolion lleol a phractisau meddygon teulu. Mae EYST yn dodrefnu'r eiddo hefyd, gan sicrhau bod gwelyau a dillad gwely yn briodol ar gyfer y teulu penodol. Mae EYST yn trefnu cludiant o'r maes awyr ac yn sicrhau y darperir pryd o fwyd croesawgar. Bydd apwyntiad eisoes wedi'i drefnu i'r teulu weld y meddyg teulu a'r Ganolfan Waith yn y ddau ddiwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd. Ymwelir â'r ysgolion lle bydd y plant wedi'u cofrestru cyn gynted â phosibl ar ôl cyrraedd.

---

[187] Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch, RAS 04.
[188] Tystiolaeth lafar, Roisin O'Hare (BILI AB), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 421.
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Caerfyrddin, RAS 27.

Mae gan EYST nifer o gyfieithwyr Arab gwirfoddol, y mae eu hangen fwyaf yn yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl cyrraedd. Mae pecynnau 'croeso i Gymru' gan Lywodraeth Cymru wedi'u darparu i'r holl deuluoedd yn Arabeg a Saesneg, ac mewn fersiynau sy'n gyfeillgar i oedolion a phlant. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd wedi darparu atodiad lleol yn Arabeg a Saesneg, sy'n trafod yr hanfodion am wasanaethau lleol a sut i gael mynediad iddynt.[190]

## Gogledd-orllewin Cymru

**219.** Mae'r gefnogaeth gan breswylwyr lleol, arweinwyr cymunedol a grwpiau gwirfoddol yn y gogledd-orllewin, sydd wedi bod yn rhagorol – maent wedi bod yn awyddus i gynnig eu gwasanaethau a rhoi i'r cynllun gyda digwyddiadau lleol yn cael eu trefnu i groesawu teuluoedd ac unigolion. Mae rhai gwledydd wedi trefnu cyfarfodydd briffio arbennig i wirfoddolwyr/y trydydd sector i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb ond gan gymryd gofal i beidio â thorri unrhyw faterion diogelwch.[191]

## Ceredigion

**220.** Gwaith gan Gyngor Sir Ceredigion gyda'r boblogaeth leol i helpu i integreiddio a rheoli'r cynigion o gymorth gan breswylwyr lleol. Y nod yw galluogi'r gymuned leol i ddangos y croesewir ffoaduriaid heb lethu'r grŵp. Mae dau gynorthwy-ydd addysg rhan amser wedi'u recriwtio o'r boblogaeth leol sy'n siarad Arabeg i helpu'r plant yn yr ysgol, mae'r Gymdeithas Foslemaidd Leol wedi cymryd rhan gyda chyfarfodydd croesawu, caiff cynigion am lety eu trosglwyddo i'r Gwasanaethau Amgylcheddol, a gwnaed cardiau croeso gan blant a theuluoedd a'u rhoi i ffoaduriaid pan fyddant yn cyrraedd Ceredigion.[192]

## Caerdydd a Bro Morgannwg

**221.** Mae cydweithio agos gyda phartneriaethau cymdogaeth yn ardal BILl Caerdydd a'r Fro yn cynnig cyfle i gefnogi cymunedau lleol drwy waith aml-asiantaeth a chreu gwell dealltwriaeth a chynyddu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â'r grŵp cleient hwn. Bydd hyn, yn y pen draw, yn helpu i gefnogi poblogaeth gynhwysol gyda gwell iechyd a lles.[193]

## Abertawe

**222.** Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth mewn ysgolion yn ardal Abertawe gan EYST, fwy na thebyg ddwy neu dair gwaith yr wythnos ynghylch ymwybyddiaeth am ffoaduriaid, Islamaffobia ac amrywiaeth. Caiff ei deilwra i'r hyn y mae'r ysgol yn gofyn amdano, ond mae'n wasanaeth poblogaidd iawn a gynhelir, sydd â galw mawr ac sy'n effeithiol iawn.[194]

## Bangor


**223.** Mae Pobl i Bobl, sydd wedi'i leoli ym Mangor, wedi datblygu perthynas sy'n tyfu gyda'r teuluoedd a gyrhaeddodd yn yr ardal o dan SVPRS, ac sy'n eu helpu i ymgysylltu â'r gymuned leol gyda phreswylwyr sy'n siarad Arabeg a Chymraeg/Saesneg. Er enghraifft, trefnwyd digwyddiadau integreiddio ar gyfer y ffoaduriaid, a dewisodd rhai aelodau o'r teulu wirfoddoli'n rheolaidd gyda Pobl i Bobl, gan weithio ochr yn ochr â phreswylwyr lleol. Mae hyn wedi helpu teuluoedd i ymgartrefu yn yr ardal yn gyflym a theimlo croeso. Mae'r Ganolfan Islamaidd ym Mangor wedi bod yn ffactor pwysig o

---

[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Caerfyrddin, RAS 27.
[191] Tystiolaeth ysgrifenedig, Awdurdodau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, RAS 29.
[192] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Ceredigion, RAS 38.
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, BILl Caerdydd a'r Fro, RAS 39.
[194] Tystiolaeth lafar, Rocio Cifuentes (EYST), 15 Rhagfyr 2016, paragraff 271.

ran integreiddio'n llwyddiannus, lle mae ffoaduriaid wedi cael eu croesawu'n gynnes gan Fwslemiaid eraill a phreswylwyr sy'n siarad Arabeg.[195]

[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pobl i Bobl, RAS 40.




1. Abertawe
2. Casnewydd
3. Sir Gaerfyrddin
4. Gwynedd
5. Ynys Môn
6. Ceredigion
7. Caerdydd a Bro Morgannwg

# Atodiad B – Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn ac maent wedi'u cyhoeddi ar y wefan.

| Cyf | Sefydliad |
|---|---|
| RAS 01 | Oasis |
| RAS 01a | Oasis |
| RAS 02 | Gesajda Asllani, Coleg Sir Gâr |
| RAS 03 | Cymdeithas Seicolegol Prydain |
| RAS 04 | Grŵp Cymorth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Ardal |
| RAS 05 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| RAS 06 | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| RAS 07 | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| RAS 08 | Cymdeithas y Plant |
| RAS 09 | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| RAS 10 | Oxfam Cymru |
| RAS11 | Asylum Justice |
| RAS 12 | Hiraeth Hope |
| RAS 13 | Estyn |
| RAS 14 | Glymblaid Ffoaduriaid Cymru |
| RAS 15 | British Red Cross |
| RAS 16 | Children Displaced Across Borders |
| RAS 17 | Tai Pawb |
| RAS 18 | Trefnu Cymunedol Cymru |
| RAS 19 | UNISON Cymru |
| RAS 20 | Plant yng Nghymru |
| RAS 21 | City of Sanctuary |
| RAS 22 | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Athrawesau |
| RAS 23 | Hawliau |

| | |
|---|---|
| RAS 24 | Stonewall Cymru |
| RAS 25 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| RAS 26 | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| RAS 27 | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| RAS 28 | Dinas a Sir Abertawe |
| RAS 29 | Llywodraethau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn (Gogledd-orllewin Cymru) |
| RAS 30 | Cymorth i Ferched Cymru |
| RAS 31 | Cymorth i Ffoaduriaid y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth |
| RAS 32 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| RAS 33 | Tim Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| RAS 34 | The Wales Strategic Migration Partnership (WSMP) |
| RAS 35 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| RAS 36 | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| RAS 37 | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| RAS 38 | Cyngor Sir Ceredigion |
| RAS 39 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| RAS 40 | Pobl i Bobl |
| RAS 41 | Migrant Help |
| RAS 42 | Space4U |
| RAS 43 | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful |
| RAS 44 | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| RAS 45 | Prifysgol De Cymru |
| RAS 46 | Displaced People in Action |

# Atodiad C – Yr amserlen o ran tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth llafar ar gael.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 7 Rhagfyr 2016 | Sian Summers-Rees, Dinas Noddfa y DU ac Iwerddon a Chadeirydd Asylum Justice<br>Hayley Richards, Oxfam<br>Neil McKittrick, Y Groes Goch Brydeinig<br>Elinor Harris, Y Groes Goch Brydeinig<br>Tracey Sherlock, Cyngor Ffoaduriaid Cymru<br>Salah Rasool, Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| 15 Rhagfyr 2016 | Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anne Hubbard, Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru<br>Catriona Williams, Plant yng Nghymru<br>Cheryl Martin, Plant yng Nghymru<br>Rocio Cifuentes, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig<br>Shehla Khan, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig<br>Professor Bill Yule, Cymdeithas Seicolegol Prydain<br>Dr Gill Richardson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Roisin O'Hare, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 11 Ionawr 2017 | Dr Mike Chick, Prifysgol De Cymru<br>Alicja Zalesinska, Tai Pawb<br>Canon Aled Edwards, Alltudion ar Waith<br>Faruk Ogut, Alltudion ar Waith |
| 19 Ionawr 2017 | Carl Sargeant AM, Llywodraeth Cymru<br>Maureen Howell, Llywodraeth Cymru<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru<br>John Davies, Llywodraeth Cymru |